# Treforys

## Adolygiad o Ardal Gadwraeth Treforys

Mehefin 2017 (Drafft ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus)



# CYNNWYS


Cyflwyniad . . . . . 1

1 Crynodeb o Faterion ac Argymhellion . . . . . 2
2 Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol a Lleol . . . . . 3
Arweiniad cenedlaethol . . . . . 3
Polisi lleol . . . . . 3
Cadwraeth a dynodiad . . . . . 5
3 Crynodeb o Ddiddordeb Arbennig . . . . . 6
4 Datblygiad Hanesyddol a Thopograffig Cynnar . . . . . 8
5 Asedau Treftadaeth . . . . . 13
6 Cynnig y Ffin . . . . . 17
7 Arfarniad o Gymeriad . . . . . 19
8 Ardaloedd Cymeriad . . . . . 28
Stryd Woodfield . . . . . 28
Treforys Uchaf . . . . . 30
Stryd Martin . . . . . 31
Y grid gwreiddiol: Stryd Globe, Stryd y Farchnad a Stryd Morris . . . . . 31
Treforys Isaf: Stryd y Goron, Stryd Morfydd a Stryd Davies . . . . . 32
Stryd Glantawe rhwng Stryd Morfydd a Stryd Slate . . . . . 33
Cwadrant y gogledd-ddwyrain: Stryd Gogledd Glantawe, Heol y Clâs,
Stryd Bedford, Stryd Slate, Stryd Green a Rhodfa Margam . . . . . 33
9 Cynllun Rheoli a Chynigion Dylunio Trefol . . . . . 35
10 Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu . . . . . 41

Llyfryddiaeth . . . . . 42
Atodiad 1: Ymgynghoriad Cymunedol . . . . . 43
Atodiad 2: Cyfarwyddydau Erthgyl 4 . . . . . 44

# RHAGARWEINIAD

Mae'r Adolygiad Ardal Gadwraeth Treforys drafft hwn yn cynnwys:

- Arfarniad o gymeriad;
- Cynllun Rheoli.

Mae adrannau cynnar y ddogfen hon yn rhoi trosolwg o gyd-destun y polisi ac yn tynnu sylw at hanes ac arwyddocâd Treforys. Yna, mae'r ddogfen yn darparu gwerthusiad cymeriad ac yn amlinellu'r ardaloedd cymeriad er mwyn llywio cynigion datblygu a newidiadau yn yr ardal. Daw'r ddogfen i ben gyda chyfres o argymhellion sy'n cwmpasu'r meini prawf rheoli ac awgrymiadau newidiadau ar y ffin, yn ogystal â nifer o brosiectau gwella posibl. Mae'r fformat yn fras yn dilyn y canllawiau arfer gorau a gyhoeddwyd gan Cadw ar gyfer ardaloedd cadwraeth.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid chwe wythnos o hyd ar yr Arfarniad Cymeriad a'r Cynllun Rheoli rhwng 25 Awst ac 8 Hydref 2017. Roedd hyn hefyd yn cynnwys bod yn bresennol ym Marchnad Stryd Treforys ar 2 Medi ac ymgynghoriad cyhoeddus ar 14 Medi yn y Tabernacl. Roedd copïau o'r dogfennau drafft ar gael ar wefan Cyngor Dinas a Sir Abertawe drwy gydol yr ymgynghoriad cyhoeddus. (Gweler yr atodiad am Ddatganiad Ymgynghori).

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, gwnaed newidiadau a mabwysiadwyd y ddogfen gan y cyngor ar 7 Tachwedd 2017 fel Canllaw Cynllunio Atodol i Bolisi EV9 y Cynllun Datblygu Unedol. Mae'r ddogfen hon yn ystyriaeth bwysig wrth ystyried ceisiadau am newid o fewn yr Ardal Gadwraeth neu ar ei hymylon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon neu'r broses ymgynghori cyhoeddus, ffoniwch y Tîm Dylunio a Chadwraeth ar 01792 636320.







# 1

# CRYNODEB O BRYDERON AC ARGYMHELLION

## Pryderon allweddol

- Mae dynodi fel Ardal Gadwraeth ym 1975 wedi cael effaith gyfyngedig ar ddiogelu cymeriad a golwg arbennig yr ardal
- Cafwyd dirywiad mewn nodweddion traddodiadol ar hyd Stryd Woodfield, canolfan siopa Treforys ac ar hyd strydoedd preswyl.
- Dylid adolygu ffiniau'r ardal gadwraeth yn sgîl y newidiadau yn yr ardal gadwraeth, newidiadau economaidd sy'n effeithio ar y stryd fawr, a gwell dealltwriaeth o ddatblygiad topograffig canol y dref.
- Mae pryder ynghylch cyflwr rhai o'r adeiladau tirnod allweddol, adeiladau anrhestredig ond sydd â gwerth treflun sylweddol, a chymeriad cyffredinol Stryd Woodfield.
- Mae angen strategaeth adfywio economaidd ar gyfer Stryd Woodfield sy'n cysylltu â'r statws treftadaeth. Ni fydd rheolau Ardal Gadwraeth yn sbarduno adfywio, felly mae angen cefnogi busnesau a chael cyllid grantiau.
- Mae cyfle i ystyried nodweddion adeileddol a thopograffig sy'n weddill o dreftadaeth ddiwydiannol Treforys a chysylltu eu harwyddocâd ag amwynder lleol a mannau gwyrdd gwell.
- Mae cryn ddiddordeb cymunedol yn hanes a strydlun Treforys y gellid manteisio arno i gynorthwyo rheoli newid.

## Argymhellion allweddol

- Mae angen cynllun rheoli ar Dreforys sy'n seiliedig ar arfarniad cymeriad ac sy'n gallu hyrwyddo rheoli newid yn well yn yr ardal gadwraeth, yn cadw a gwella cymeriad ac amwynder, ac yn cyfrannu at adfywio a fydd yn cefnogi buddsoddiad yn yr amgylchedd adeiledig hanesyddol.
- Mae angen sicrhau dyfodol rhai adeiladau tirnod 'eiconig' yn benodol, sef y Tabernacl, Eglwys Sant Ioan a Phlas Danbert.
- Yn gysylltiedig â'r cynllun hwn, gellid ystyried dethol cyfarwyddiadau Erthygl 4 ar gyfer adeiladau penodol o ansawdd er mwyn gwarchod y manylion traddodiadol sydd ar ôl lle mae'n briodol, ond mae angen targedu'r rhain yn ofalus.
- Dylid adolygu rheoli hysbysebion.
- Ceir diddordeb cymunedol cryf yng ngorffennol Treforys a dylid manteisio ar hwn i gefnogi rheoli'r ardal gadwraeth, er enghraifft trwy brosiect hanes lleol ac amgylchedd hanesyddol sy'n cynnwys sefydliadau'r sector gwirfoddol ac unigolion gwybodus.
- Nodir opsiynau i addasu ffiniau'r ardal gadwraeth, yn bennaf er mwyn (1) gwella golwg, amwynder a rheolaeth Stryd Woodfield; a (2) adlewyrchu'r ddealltwriaeth hanesyddol o ddatblygiad y dref cyn 1920.
- Mae angen archwilio potensial Menter Treftadaeth Dreflun wedi'i chefnogi gan grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn cefnogi gwelliannau i adeiladau penodol a nodweddion y strydlun ar hyd Stryd Woodfield.
- Dylid cymryd ymagwedd fwy cadarn at reoli dylunio a rheoli newid yn yr ardal gadwraeth.
- Dylid mynd ati i adfer a chadw blaenau siopau, manylion ffasadau a ffenestri traddodiadol – trwy reoli datblygu a phrosiectau enghreifftiol.
- Dylid datblygu cyngor ar gyfer perchnogion eiddo preswyl sy'n byw mewn ardal gadwraeth er mwyn cadw manylion traddodiadol a sicrhau bod cartrefi'n cael eu cynnal a'u cadw mewn modd cynaliadwy.
- Mae angen rhaglen codi ymwybyddiaeth ar gyfer y gymuned ehangach, a dylid datblygu prosiectau ymgysylltu â'r gymuned sy'n cynnwys pobl leol wrth ofalu am yr ardal gadwraeth ar y cyd â grwpiau cymunedol presennol.

# 2

## Y CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL A LLEOL


### Canllawiau Cenedlaethol

2.1 Darperir polisi ac arweiniad ar gyfer dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth yn genedlaethol ac yn lleol yng Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru (8fed argraffiad, Ionawr 2016) (PCC) yn amlinellu cyfrifoldebau bras awdurdodau cynllunio lleol, yn benodol i gadw'r amgylchedd hanesyddol 'wrth sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cyfredol ac yn parhau i ymateb iddynt fel agwedd allweddol ar eu cyfrifoldebau datblygu cynaliadwy ehangach'. Cydnabyddir ardaloedd cadwraeth fel y prif offeryn cynllunio lleol i roi polisïau cadwraeth ar waith ar gyfer ardal, gan alluogi rheoli newid yn fwy cadarnhaol wrth ddiogelu a gwella cymeriad neu olwg yr ardal. Mae PCC hefyd yn esbonio sut dylai'r cynllun datblygu gefnogi rheolaeth yr amgylchedd hanesyddol ac yn nodi'r mesurau rheoli arbennig ar gyfer datblygu sy'n berthnasol i ardaloedd cadwraeth neu y gellir eu mabwysiadu ynddynt. Mae rheoliadau manwl ynglŷn â'r mesurau rheoli hyn bellach wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Addasiad) 2015.

2.1.1 Is-adran 6 TAN 24: Mae'r Amgylchedd Hanesyddol yn pwysleisio'r ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu eu hardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd a phenderfynu a oes angen dynodi ardaloedd ychwanegol. Mae TAN24 yn pwysleisio ansawdd lle fel y 'brif ystyriaeth' wrth nodi ardaloedd cadwraeth, ac yn esbonio bod hyn yn dibynnu ar lawer mwy nag adeiladau unigol. Mae'n awgrymu y dylid dadansoddi cymeriad ac arwyddocâd nodweddion treflun mewn modd cyfannol. Mae angen i awdurdodau cynllunio gyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth sy'n cynnwys arfarniadau cymeriad a strategaethau ar gyfer y dyfodol. Lle bo modd, dylai'r strategaethau hyn gynnwys cyn lleied o fesurau rheoli ar gyfer busnesau a deiliaid tai â phosib. Mae'n rhaid ymgynghori â phreswylwyr ynghylch dynodi ardaloedd a diffinio'u ffiniau a dylid cyflwyno cynigion ar gyfer rheoli ardal gadwraeth mewn cyfarfod cyhoeddus, mewn perthynas ag ymgynghoriad ehangach.

2.1.2 Mae Nodyn Cyngor Technegol 12 (2016) hefyd yn berthnasol gan ei fod yn rhoi cyngor ar hyrwyddo dylunio da yn yr amgylchedd hanesyddol ac mewn ardaloedd o gymeriad arbennig. Mae'n nodi sawl ffactor y dylid eu hystyried mewn arfarniadau cyd-destun sydd ymysg y rhai y dylid eu hystyried mewn arfarniad cymeriad (paragraff 5.6.2).

2.1.3 Mae cyngor ynglŷn ag arfarnu ardaloedd cadwraeth a materion dynodi a rheoli wedi cael ei gyhoeddi gan Historic England (Conservation Area Designation, Appraisal and Management, Chwefror 2016). Mae cynnwys y llawlyfr hwn wedi cyfeirio'r arfarniad cyfredol hwn a'i ymagwedd at reoli newid.



## Polisi lleol

2.2 Mae Cynllun Datblygu Unedol Abertawe, 2010, yn cynnwys polisi cyffredinol yr awdurdod ar gyfer rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae Polisi EV9 (Ardaloedd Cadwraeth) yn nodi'r canlynol:

> Ni chaniateir datblygu mewn ardal gadwraeth neu'n gyfagos iddi oni bai y byddai hyn yn diogelu neu'n gwella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth neu ei lleoliad.
>
> Hefyd, mae'n rhaid i ddatblygiad newydd yn y fath leoliadau fod o safon ddylunio uchel, yn ymateb i nodweddion arbennig yr ardal, ac yn rhoi sylw penodol i'r canlynol:

I. Golygfeydd pwysig, fistâu, golwg strydoedd a thoeon, coed, mannau agored, bylchau a nodweddion eraill sy'n cyfrannu at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth;
II. Cadw ffiniau hanesyddol arwyddocaol a phwysig neu elfennau eraill sy'n cyfrannu at ffurf sefydledig datblygiad;
III. Y berthynas ag adeiladau a mannau presennol, a phatrwm y datblygiad;
IV. Maint, uchder a màs;
V. Dylunio pensaernïol, addurniad sefydledig a'r defnydd o ddeunyddiau;
VI. Trin ffiniau; a
VII. Deunyddiau mannau cyhoeddus.

2.2.1 Er mwyn ehangu'r polisi hwn (ymysg pethau eraill), mae angen cyflwyno cynlluniau a darluniadau manwl ar gyfer datblygiad newydd yn ei leoliad; ac mae'n amlinellu disgwyliad bod awdurdod y priffyrdd ac ymgymerwyr statudol yn defnyddio arwyddion ac adeileddau priffordd priodol i gadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.

2.2.2 Mae Polisi EV10 (Dymchwel Adeiladau Anrhestredig mewn Ardaloedd Cadwraeth) yn nodi na roddir caniatâd i ddymchwel adeiladau anrhestredig sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth oni ellir dangos nad yw cyflwr yr adeilad yn cyfiawnhau'r gost atgyweirio; bod ymdrech wedi'i gwneud i ddod o hyd i ddewis dichonol arall; y byddai ailddatblygu yn creu manteision sylweddol i'r gymuned a fyddai'n fwy buddiol na'r hyn a gollid; a bod cynlluniau ailddatblygu derbyniol a manwl ar waith.

2.2.3 Ymysg polisïau eraill, mae EV13 (Blaenau Siopau) ac EV14 (Hysbysebion) hefyd yn berthnasol yn lleol gan ei gwneud yn ofynnol i ddylunio yn ôl cyd-destun.

2.2.4 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys rhan o ganolfan siopa ardal ddynodedig o fath traddodiadol ac felly mae Polisi EC5 (Canolfannau Siopa Ardal) yn berthnasol, gan reoli datblygu, cyfleusterau, amwynder a hygyrchedd. Mae Polisi EC NR (Defnyddiau Anfanwerthol mewn Canolfannau Siopa) yn ymdrin â defnyddiau anfanwerthol mewn canolfannau siopa ac yn ceisio diogelu bywiogrwydd, dichonoldeb neu agwedd ddeniadol canolfannau sefydledig, yn benodol trwy reoli defnyddiau llawr gwaelod a rheoli safleoedd gwag.

2.2.5 Mae paragraff 2.4.26 y Cynllun Datblygu Unedol yn nodi yr arweiniodd hen gynllun yr Ardal Fenter a ffactorau eraill at hyrwyddo parc manwerthu Llansamlet a bod hyn wedi cael effaith andwyol ar ganolfan siopa Treforys.

2.2.6 Mae map cynigion y CDU yn dangos ffin y ganolfan siopa ardal a'i pherthynas â'r ardal gadwraeth. Yn benodol, mae'r ganolfan yn ymestyn i'r gogledd o ffin yr ardal gadwraeth ar Stryd Woodfield i gynnwys estyniad y stryd honno i'r Groes, ac estyniadau byr i'r gogledd ar hyd Heol Sway ac i'r dwyrain ar hyd Heol y Clâs, gan ddod i ben ar ochr ogleddol cwrtil Capel Seion. Mae'r capel hwnnw yn adeilad rhestredig o bwys ac yn nodwedd dirnod.

2.2.7 Mae Cynllun Datblygu Lleol Abertawe drafft sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd i ddisodli'r CDU presennol yn cael ei baratoi i'w archwilio a'i fabwysiadu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu nifer o bolisïau mewn perthynas â datblygu mewn ardaloedd cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi KS01 (Cyflwyno Lleoedd Cynaliadwy) a Pholisi AW01 (Creu Lleoedd a Rheoli Lleoedd) sy'n datgan bod yn rhaid i gynigion datblygu wella ansawdd lleoedd a chyfrannu at ymdeimlad o le.

2.2.8 Mae Polisi KS12 (Amgylchedd Hanesyddol a Diwylliannol) yn amlygu'r angen i ddiogelu nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol yn ogystal â chefnogi adfywio priodol a arweinir gan dreftadaeth a diwylliant. Mae Polisi HC2 (Diogelu a Gwella Adeiladau a Nodweddion o Bwys Hanesyddol) yn amlinellu mesurau ar gyfer diogelu a gwella asedau hanesyddol a'r angen am ddylunio o safon uchel ar gyfer datblygiadau newydd sy'n ystyried y cyd-destun lleol.

2.2.9 Mae Polisi AS28 (Canolfannau Ardal) yn amlinellu mesurau i gynnal neu wella ansawdd y ddarpariaeth siopa a chymeriad yr ardal, yn ogystal â bywiogrwydd y stryd a'r ardal.

## Dynodiad ardal gadwraeth

2.3 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Treforys gan Gyngor Dinas Abertawe ym 1975. Tynnwyd ei ffiniau i adlewyrchu'r dref gynlluniedig a ddyluniwyd ar gyfer John Morris gan yr adeiladwr pontydd enwog, William Edwards, er mwyn darparu cartrefi i weithwyr o'i waith mwyndoddi copr newydd yn Fforest. Noda datganiad cryno'r dynodiad gwreiddiol y nodweddion arbennig canlynol:

- Y cynllun grid a ddyluniwyd gan Edwards a Morris, "enghraifft gynnar o gynllunio tref yn ardal Abertawe"
- Y golygfeydd braf tua'r dwyrain, yn benodol o Stryd Slate a Stryd Morfydd, sydd o ganlyniad i'r ffordd mae'r anheddiad yn gwyro ar i waered tua llawr y cwm ac afon Tawe
- Yr olygfa drefol ddymunol, sy'n cynnwys ambell deras cerrig o'r cyfnod cyn 1918 a lanhawyd yn ddiweddar, gydag eglwysi a chapeli'n ganolbwyntiau.

2.3.1 Ar adeg y dynodiad cafwyd peth trafodaeth am ffiniau priodol, a dyma agwedd sy'n parhau i fod o ddiddordeb heddiw. Yn benodol, estynnwyd y ffin arfaethedig wreiddiol i gynnwys rhagor o dai ar ochr ogleddol Stryd Glantawe, a rhai tai ar ochr ddeheuol Heol y Clâs. Hefyd nodwyd bod tai i'r dwyrain o Stryd Woodfield mewn cyflwr gwaeth na thai i'r gorllewin ac y datganwyd yr ardal hon yn Ardal Wella Gyffredinol.

2.3.2 Mae dynodiad yr ardal gadwraeth wedi cael effaith gyfyngedig ar y cymeriad a'r amwynder lleol. Fodd bynnag, mae'n debyg ei fod wedi cynyddu sensitifrwydd lleol i gymeriad ac amwynder ar ffurf Cymdeithas Cadwraeth Treforys, a fu'n gweithredu ddiwedd y 1970au ac yn ymwneud â materion megis parcio, effaith y ffordd osgoi, cyflwr y Tabernacl a Dewi Sant, a pholisïau siopa ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys tirlunio y tu allan i Tesco.

2.3.3 Ym 1987 ymgymerwyd â chynllun gwella ger Eglwys Sant Ioan i ddarparu pafin newydd, mainc, coeden a bolardiau diogelwch ynghyd ag arwydd dehongli. Ym 1994 lansiodd y cyngor ganllaw dylunio blaenau siopau ar gyfer yr ardal gadwraeth ac Ardal Wella Fasnachol Treforys. Nod hwn oedd diogelu blaenau siopau a oedd yn dyddio i'r cyfnod cyn 1940 a hyrwyddo dyluniadau blaen siop newydd a oedd yn seiliedig ar elfennau a deunyddiau traddodiadol. Roedd y canllaw hefyd yn adlewyrchu pryderon am arwyddion, canopïau a chaeadau amhriodol.

# 3

## CRYNODEB O DDIDDORDEB ARBENNIG



Ffigur 1: Golygfa ar hyd Stryd Woodfield



Ffigur 2: Ffrâm drws traddodiadol

3.1 Tynnwyd ffin bresennol yr ardal gadwraeth i adlewyrchu craidd hanesyddol Treforys fel mae wedi datblygu o fewn y cynllun grid nodedig a ddiffiniwyd gan y diwydiannwr a'r dyngarwr John Morris a'i beiriannydd sifil, y gweinidog anghydffurfiol William Edwards, yn y 1780au. Mae hyn yn gwneud Treforys yn arbennig fel yr enghraifft gynharaf o dref ddiwydiannol gynlluniedig yn Ynysoedd Prydain. Ceir enghreifftiau cynharach o entrepreneuriaid yn adeiladu tai ar gyfer eu gweithwyr, ond mae'r rheiny ar raddfa llawer llai. Ceir enghreifftiau yng Nghwm Tawe ac mewn cyd-destunau diwydiannol cynnar yn Lloegr. Rhywbeth tra gwahanol yw tref gynlluniedig. Caerfaddon a Thref Newydd Caeredin (1766 ymlaen) yw'r enghreifftiau clasurol o gynllunio tref y 18fed ganrif – ond ar gyfer dosbarth cymdeithasol gwahanol iawn. Gallai'r enghreifftiau tebyg amlycaf (diweddarach) fod Tremadog (Gwynedd), a osodwyd gan William Maddocks ar ôl 1798 yn ôl cynllun clasurol, ac Aberaeron, a ddatblygodd ar ôl 1805 fel tref harbwr â sgwâr hardd cyfnod y Rhaglywiaeth. Ychydig iawn o adeiladau gwreiddiol y grid hwn sydd ar ôl, ond mae digon o enghreifftiau o ddatblygiad ac ehangiad y gymuned yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, felly mae amgylchedd adeiledig hanesyddol yn yr ardal gadwraeth yn dyddio, yn ei hanfod, o'r cyfnod diweddarach hwn. Mae adeiladu ac ailadeiladu capeli a'r gwelliant o ran tai a siopau'n adlewyrchu'r ehangiad demograffig a oedd yn arbennig o amlwg o 1870 ymlaen. Mae nodweddion cynharaf gweddilliol o bwys gweledol a phensaernïol o fewn y treflun hwn.

3.2 Mae'r grid a gynlluniwyd gan Edwards yn rhoi ffurf drefol i Dreforys sydd o ddiddordeb hanesyddol mawr ac sydd hefyd yn creu ansawdd lle unigryw. Mae tarddiad eithriadol Treforys fel tref gynlluniedig ddiwydiannol gyntaf Cymru yn cyfiawnhau gwarchodaeth arbennig, ac mae'r grid yn rhoi cydlyniad a hunaniaeth arbennig i'r dref fodern, a atgyfnerthir gan adeiladau tirnod a hefyd y treflun ehangach sy'n gefndir iddynt. Mae ffurf drefol Treforys yn dra gwahanol i'r datblygiad terasog, llinellol gan mwyaf a geir mewn trefi ar lethrau cymoedd de Cymru. Mae ei chymesuredd yn ei gwahaniaethu rhag y patrwm anheddiad afreolaidd sy'n gysylltiedig â darnau o dir comin a oedd yn nodweddiadol o gamau cynnar diwydiannu. Caiff y gwrthgyferbyniad olaf hwn ei ddangos yn dda ym Map Degwm Llangyfelach (Ffig. 3). Mae ffiniau'r ardal gadwraeth yn adlewyrchu'r gwrthgyferbyniad hwn.

3.3 Oherwydd trefniad strydoedd Treforys ar hyd echelin gogledd-de hir, ac o'r gorllewin i'r de i wyro tuag at waelod y cwm, ceir golygfeydd pwysig tua'r dwyrain o strydoedd croes ar y grid; ar yr un pryd, mae'r llechwedd uchod yn rhoi golygfeydd tua'r gorllewin gydag ymdeimlad o fod yn amgaeëdig. Tua'r gogledd a'r de ceir golygfeydd hir ar hyd Stryd Woodfield a Stryd Martin, gydag Eglwys Sant Ioan (1787) yn nodwedd ddiffiniol bwysig ac yn ffocws dyluniad Edwards. Mae'r man trefol olaf hwn – Sgwâr Sant Ioan – yn lle trefol pwysig.

3.4 Gan fod adeiladu yn y dref gynlluniedig yn fympwyol ar y dechrau, nid yw terasau hir yn nodweddiadol o grid Treforys ar y cyfan. Fel arfer, roedd datblygiad yn gymysg ei natur, gyda thai ar led-wahân a'r ambell fila ar wahân ochr yn ochr â therasau byr. Rhwng 1876 a 1879 roedd digonedd o safleoedd bwlch i'w llenwi – a byddai hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y ganrif, ar yr un pryd ag yr adnewyddwyd y stoc o dai a oedd mewn cyflwr gwael. Mae datblygiad afreolaidd hefyd yn rhoi diddordeb gweledol penodol i nifer o strydoedd – megis blaenau igam-ogam a golygfeydd hir ar hyd Stryd Glantawe, neu'r llinellau toeon sy'n ymestyn i lawr y llethr i waelod y cwm. Mae ehangiad safleoedd manwerthu yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar hyd Stryd Woodfield a thuag at y Groes lle mae llwybrau'n ymestyn tua'r gogledd i fyny Cwm Tawe, tua'r dwyrain i Gastell-nedd (o 1780 dros Bont Wychtree a ddyluniwyd gan Edwards ond sydd wedi diflannu erbyn hyn), a thua'r gorllewin i Bontarddulais, yn cyfrannu at undod amser a lle pensaernïol sy'n cysylltu siopau, tai ac adeiladau cyhoeddus.

3.5 Mae adeiladau tirnod yn yr ardal gadwraeth yn cyfrannu at y diddordeb arbennig hwn a'r ansawdd lle. Mae gan y Tabernacl rôl arbennig iawn fel tirnod lleol a phell, ond mae adeiladau eraill yn ysgogiadau gweledol/dirnodau lleol ar yr un pryd gan eu bod yn enghreifftiau da o'u math. Mae hyn yn wir o ran strydoedd preswyl a'r rhes o siopau ar hyd Stryd Woodfield fel ei gilydd.

3.6 Ynghyd ag adeiladau tirnod ac adeileddau eraill o bwys hanesyddol neu dreflun, mae amrywiaeth o addurniad pensaernïol cyfnod wedi goroesi yn yr ardal gadwraeth ac yn cyfrannu at ansawdd lle – yn bennaf tu blaen traddodiadol siopau ac addurniad cysylltiedig, fframiau drws, ffenestri a waliau terfyn. Yn aml mae'r rhain yn cyfuno i greu blaenau lleol neu gorneli stryd trawiadol. Ar yr un pryd, mae datblygiad fesul tipyn ac effaith y llethr wedi arwain at doeon amrywiol ac, yn benodol ar hyd Stryd Glantawe, flaenau afreolaidd trawiadol o ddiddordeb gweledol.

3.7 Mae'r adolygiad ffiniau wedi ystyried y berthynas rhwng nodweddion yn yr amgylchedd hanesyddol o fewn a'r tu hwnt i'r ffiniau presennol ac adlewyrchir y casgliadau o'r dadansoddiad hwn mewn cynigion sy'n rhoi ystyriaeth gytbwys i bwysigrwydd y cynllun grid a ffiniau'r dref gynlluniedig, ac i natur datblygiadau'n union y tu hwnt i'r ffiniau wrth i'r gymuned ehangu yn oes Victoria ac oes Edward, gyda newidiadau yn y topograffi oherwydd cludiant ffyrdd a rheilffyrdd a chysylltiadau â safleoedd diwydiannol Treforys a'r trefi cyfagos, yn benodol Castell-nedd ac Abertawe.


# 4

## DATBLYGIAD HANESYDDOL A THOPOGRAFFIG CYNNAR


Mae ffigurau 3 i 6 yn darparu tystiolaeth o dwf y dref.




Ffigur 3: Map Degwm, 1838



Ffigur 4: Map o Dreforys, tua 1793




Ffigur 5: Map o dir a gaffaelwyd oddi wrth Childs, 1994

4.1 Yr anheddiad diwydiannol cynlluniedig cyntaf yng Nghymru oedd Treforys. Fe'i gosodwyd yn y 1780au i ddenu a darparu cartrefi ar gyfer gweithwyr yn niwydiant mwyndoddi copr datblygol Cwm Tawe isaf, un o feithrinfeydd y Chwyldro Diwydiannol cynnar. Mae ei dyddiad cynnar fel tref gynlluniedig o gartrefi diwydiannol yn y cyd-destun hanesyddol pwysig hwn yn rhoi, yn ôl Hughes (2000: 163), bwysigrwydd rhyngwladol iddi. Mae gan ei chynllun grid rinwedd y Dadeni a rennir gan arferion dull eithaf gwahanol y ddeunawfed ganrif mewn cynllunio tref (er enghraifft, Caeredin neu Gaerfaddon). Model ydyw a efelychwyd yn ddiweddarach yn ne Cymru, sef Trevivian a Thredegar. Mae gan yr aneddiadau hyn, ynghyd â Threforys, gynlluniau sydd â chymesuredd bras a chanolbwyntiau wedi'u dylunio'n ofalus sy'n creu ansawdd lle sy'n dra gwahanol i'r hyn a geir mewn mathau eraill o anheddiad diwydiannol. Mae Newman (1995: 623) yn disgrifio 'natur hunangynhwysol ac ystyriol' cynllun Treforys. Goblygiad pwysig yw sut mae golygfeydd hir ar hyd strydoedd yn dylanwadu ar gymeriad, sy'n cael ei atgyfnerthu gan lethr ar strydoedd croes i hyrwyddo, wrth edrych tua'r gorllewin, ymdeimlad o gael ei amgáu gan y llechwedd a chyn tir comin uwchben y dref wreiddiol ac, wrth edrych tua'r dwyrain, olygfeydd agored dros Gwm Tawe.




Ffigur 6a: Map AO 1876




Ffigur 6b: Map AO 1935

4.2 Enwyd Treforys ar ôl ei sylfaenydd, John Morris I (g. 1745), o Lockwood, Morris and Company. Roedd ei dad, Robert, yn hanu o Swydd Amwythig. O 1727 ymlaen, fe oedd un o'r entrepreneuriaid allweddol yn y diwydiant mwyndoddi copr a oedd yn datblygu. Wedi'i gynorthwyo gan brydlesi ffafriol gan ystâd Beaufort, rhoddwyd iddo'r hawl i gloddio am lo at ddiben mwyndoddi bron unrhyw le rhwng afonydd Tawe a Llwchwr. Gyda chyfoeth John Morris, adeiladwyd plasty'r teulu Clasemont ar y bryn uwchben safle Treforys.

4.3 Roedd meistri copr cynnar, megis Morris, yn gyfarwydd â darparu tai ar gyfer eu gweithwyr. Roedd hyn bron yn rheidrwydd oherwydd lleoliad anghysbell eu diwydiannau. Ond achos arbennig yw John Morris sy'n cyfrannu at bwysigrwydd hanesyddol Treforys. Ym 1815, nododd Walter Davies mai ef oedd 'the most extensive individual builder of comfortable habitations for the labouring class' (Hughes, 2000: 187). Mae'n debyg bod yr angen ymarferol i ddarparu cartrefi ar gyfer gweithiwr yn ei waith yn Fforest wedi cael ei gyfuno â dyngarwch, ond hefyd â'i ddiddordeb mewn creu tirlun addurnol sy'n gysylltiedig â Clasemont (a ddymchwelwyd ym 1819). Ym 1773 gorchmynnodd i 'Gastell Morris' gael ei adeiladu i ddarparu llety ar gyfer deugain teulu mewn tri bloc wedi'u cysylltu â thyrrau o amgylch cwrt canolog. Cafodd hwn ei leoli fel y gellir ei weld o Clasemont ac mae'n debyg iddo gael ei ddylunio gan yr un pensaer, James Johnson. Plas Wychtree, a oedd efallai'r adeiledd cynharaf yn anheddiad newydd 'Tref Morys' – a ddymchwelwyd ond a gofnodwyd cyn ei ddymchwel – oedd enghraifft nodedig arall o lety i weithwyr, ac yn yr un modd fe'i dyluniwyd gan Johnson yn null y Dadeni.

4.4 Gellir ystyried Treforys fel canlyniad ymgais i lunio tirlun diwydiannol deniadol/rhamantaidd ar raddfa anferthol trwy adeiladu nid yn unig hosteli neu un neu ddau deras ar gyfer gweithwyr ond tref gyfan, gyda'i dyluniad dan ddylanwad safonau mwyaf cwrtais cynllunio tref y ddeunawfed ganrif. Ceisiai Morris annog gweithwyr i fewnfudo mewn ffordd a fyddai'n eu hatal rhag bod yn faich ar y plwyf. Byddent yn cymryd lleiniau i adeiladu tai a thyfu bwyd arnynt. Yn yr achos hwn, partner Morris oedd William Edwards, gweinidog Methodistaidd, pensaer, adeiladwr pontydd a pheiriannydd sifil, a oedd wedi gweithio iddo ers y 1740au.

4.5 Ym 1778 roedd Edwards wedi dylunio ac adeiladu Pont Wychtree (a ddymchwelwyd ym 1959) ar draws afon Tawe i wasanaethu'r ffordd dyrpeg newydd rhwng Abertawe a Chastell-nedd. Mae'n bosib mai hwn oedd y sbardun i sefydlu Treforys, ond dechreuwyd paratoi ar gyfer y datblygiad cyn hyn. Mae Childs wedi dadansoddi caffaeliadau tir ystâd Morris. Roedd y rhain yn cynnwys fferm Tir Hopkins Edward a ddangosir ar fap o 1761 a brynwyd gan Morris oddi wrth y teulu Beaufort. Diffiniwyd ffiniau'r dref gynlluniedig i raddau helaeth gan ffiniau'r ystâd hon, gyda'i hymyl ogleddol yn cael ei nodi gan Nant Felyn, a oedd yn gwahanu maenor Trewyddfa o faenor y Clâs (Childs, 1994). Roedd rhan dde-ddwyreiniol y llain hon yn wynebu Gwaith Fforest ar ochr draw'r afon, wedi'i chroesi gan hen Bont Fforest. O fewn y ffiniau hyn byddai Edwards yn gosod ei grid o strydoedd ac yn nodi'r lleiniau lle gallai mudwyr adeiladu tai yn ôl ei gynllun ef. Yn ogystal, gwaddolodd Morris Eglwys Sant Ioan (1787) i fewnfudwyr yr oedd yn well ganddynt yr eglwys wladol. Gosodwyd hon mewn lleoliad blaenllaw ar groesffordd echelin hir y dref ar hyd Stryd Woodfield â Stryd Morfydd. Roedd lleoliad Capel Libanus gynt (1782), a waddolwyd hefyd gan Morris ar gyfer Anghydffurfwyr, yn awgrymu ei bod hi'n debygol i'r dref gael ei chynllunio mewn dau gam. Mae'r camau hyn yn helpu i greu ardaloedd o gymeriad treflun unigryw. Saif Capel Libanus ar gornel ogledd-orllewinol y grid llai cynharach, wedi'i oleddfu oddi wrth yr ail gam mwy uchelgeisiol o ddatblygiad yr oedd Sant Ioan yn brif nodwedd ohono, mewn siâp tynn a grëwyd gan ffiniau caeau.

4.6 Dengys Hughes sut roedd Cam 1 yn llenwi cae unigol ger yr afon a'r gwaith, ac roedd yn cynnwys y ffordd dyrpeg newydd wrth iddi ymestyn i'r gogledd-ddwyrain tuag at Bont Wychtree (Hughes, 2000. 2000: 199ff). Roedd Stryd Morris a Stryd y Farchnad yn gyfochrog â'r ffordd dyrpeg wrth iddi osgoi ffordd droellog gynt ar hyd yr hyn a ddaeth yn Stryd Wychtree. Gosodwyd Stryd y Castell a Stryd Globe fel strydoedd croes o'r dwyrain i'r gorllewin i greu cynllun grid tynn. Tarfwyd ar gydlyniad y cynllun hwn mor gynnar â 1796 pan adeiladwyd Camlas Tawe. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd llinell y gamlas wedi cael ei chryfhau gan ddolen Treforys o Rheilffordd y Great Western. Fodd bynnag, ni chafwyd yr ymyriad olaf ar y grid cyntaf tan yn ddiweddar pan drowyd yr A4067 yn ffordd ddeuol rhwng 1994 a 1997. Fodd bynnag, wrth edrych tua'r gorllewin o Stryd Ash, sy'n ymddangos fel darn gweddilliol o'r ffordd dyrpeg, mae'n bosib anwybyddu'r brif ffordd am ennyd i ddychmygu cyfanrwydd cynllun gwreiddiol y strydoedd.

4.7 Gosodwyd yr ail gam mewn caeau i'r gorllewin o'r cam gwreiddiol, a diffiniwyd ei ffiniau allanol gan ffiniau Tir Hopkin Edward. Roedd y cynllun mwy hael yn galluogi diffinio lleiniau adeiladu mwy sylweddol, gan greu naws llawer mwy agored na'r ymdeimlad o fod yn amgaeëdig sy'n nodweddiadol o'r strydoedd gwreiddiol.

4.8 Awgrymodd Walter Davies (a ddyfynnwyd gan Hughes, 2000: 200) fod y dref yn cynnwys 141 o dai a 619 o drigolion erbyn 1796, gan ddyblu erbyn diwedd rhyfeloedd Napoleon. Ym 1841, mae'r cyfrifiad yn awgrymu dwywaith y nifer o bobl, ond dim ond 443 o dai o'i gymharu â 300 ym 1820. Mae mapiau cynnar yn rhoi disgrifiadau dangosol yn hytrach na phendant o hanes y datblygiad. Mae cynllun o 1793 yn awgrymu ail sgwâr i'r gogledd o Sant Ioan na chafodd ei adeiladu. Gellir tybio bod y map degwm yn fwy cywir, mae'n dangos maint y tir agored o fewn y dref gynlluniedig ac yn gwrthgyferbynnu cynllun rheolaidd y grid yn effeithiol â natur afreolaidd yr anheddiad ar hyd yr heolydd glo a'r llwybrau sy'n gysylltiedig â'r gweithfeydd diwydiannol i'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin.

4.9 Nid yw cyfrifiad 1841 yn nodi enwau strydoedd. Yn amlwg roedd datblygiad yn ehangu ar hyd ffyrdd y tu allan i dirddaliad Morris. Fodd bynnag, mae'n glir o fap degwm 1838 ac o'r Arolwg Ordnans cyntaf yr aeth degawdau heibio cyn i'r cynllun grid gael ei ddatblygu'n llawn. Yn ogystal, cafodd tai llawer hŷn eu disodli gan dai newydd, a hynny fwy nag unwaith mae'n debyg. Bu cryn ailadeiladu i lenwi bylchau a chynnydd o ran datblygu rhwng y 1870au a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth i'r boblogaeth ehangu gyda thwf y diwydiant tunplat a mentrau cysylltiedig a thrawsnewidiwyd gwasanaethau cludiant a phatrymau mudo gan y rheilffordd. Roedd y twf hwn yn gyfrifol am adeiladu ac ailadeiladu eglwysi a chapeli yn y 1850au ac ar ôl hynny, fel yr oedd y cynnydd ac ehangiad o ran datblygu tua'r gogledd ar hyd Stryd Woodfield ac ymddangosiad y ganolfan siopa gyfarwydd o ddiwedd oes Victoria ac oes Edward. Roedd adeiladu'r Tabernacl ym 1872 yn symboleiddio twf y dref a hunanhyder y gweithwyr a'r diwydianwyr fel ei gilydd, ond mae'n debyg ei fod hefyd wedi cyfrannu at dynnu'r pwyslais ar Stryd Woodfield oddi wrth y Groes a Phont Wychtree.

4.10 Roedd cyflwr tai Fictoraidd cynnar yn wael ac mae hyn yn esbonio pam mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r tai wedi cael eu disodli neu eu hailadeiladu i'r fath raddau nad oes modd eu hadnabod. Roedd Abertawe'n destun ymchwiliad i gyflyrau byw fel rhan o waith Comisiwn Brenhinol ym 1844. Yn Nhreforys, nododd G.T. Clark, a oedd yn cynnal ail ymchwiliad ym 1849, fod 'the streets and roads were ill-made and neglected. The houses were built too close against the hillsides and were consequently very damp.' Roedd pobl leol, yng nghanol dirwasgiad diwydiannol, yn cwyno na fyddai eu landlordiaid yn darparu draeniau na thoiledau. Nid oedd unrhyw gyflenwad dŵr cyhoeddus. O ganlyniad roedd twymynau a heintiau'n gyffredin, yn ffyrnig ac, yn aml, yn farwol. Roedd y gored ar afon Tawe yn ffynhonnell afiechyd gan yr oedd yn derbyn 'nearly the whole of the animal and vegetable filth of the place as well as the foul waters of the collieries… the bulk of the population drink their tea brewed with this filthy water'. Roedd yr amodau hyn yn gyd-destun i'r epidemig colera'r un flwyddyn. 'Fever food and cholera food are unremittingly supplied to the lungs and bowels of the inhabitants.' Nododd adroddiad tebyg sut roedd carthion yn tagu cwteri agored strydoedd y dref, gan greu drewdod ffiaidd, yn enwedig mewn tywydd poeth. (Ridd, 1960: 44; Hughes, 2000: 188).

# 5

## ASEDAU TREFTADAETH



Ffigur 7: Capel Philadelphia (Gradd II)



Ffigur 8: Hen Orsaf yr Heddlu (Gradd II)



Ffigur 9: Plas Danbert (Gradd II) (Mewn Perygl)



Ffigur 10: Eglwys Sant Ioan (Gradd II)



Ffigur 11: Pont Stryd Morfydd (Gradd II)



Ffigur 12: Y Tabernacl (Gradd I)

## Adeiladau Rhestredig

5.1 Mae nifer o adeiladau rhestredig yn Nhreforys sy'n elwa o warchodaeth ffurfiol ar ben yr hyn a roddir i adeiladau nad ydynt yn rhestredig oherwydd bod ganddi statws ardal gadwraeth. Y rhain yw:

- Capel Philadelphia (Ffig. 7), Tŷ'r Capel a'r Ysgoldy (1802, 1829, adluniwyd y fynedfa ym 1935) yn Stryd Morris/Stryd Globe (rhestredig Gradd II 1993)
- Hen gyfadeilad gorsaf yr heddlu, Stryd Banwell (rhestredig Gradd II 1993) a adeiladwyd ym 1875 ac a 'restrwyd fel tystiolaeth o welliant trefol ddiwedd y 19eg ganrif' (gweler Ffig. 8)
- Plas Danbert (Ffig. 9), Stryd Morfydd (rhestredig Gradd II 1993), a adeiladwyd yn y 1880au ar gyfer gweithgynhyrchwr tunplat lleol, "plas mawr Fictoraidd yn y dref, sy'n anarferol yn Nhreforys"
- Eglwys Sant Ioan (Ffig. 10), a gysegrwyd ym 1862 fel olynydd i adeilad gwreiddiol William Edwards (rhestredig Gradd II 1993). Ni chafodd yr eil orllewinol ei hadeiladu erioed, sy'n ffodus iawn ar gyfer cylchrediad y traffig lleol (Hughes, 2000: 258-9).
- Pont y gamlas ar Stryd Morfydd a'r wal derfyn gysylltiedig yn Stryd Davies (rhestredig Gradd II 1991, diwygiwyd y rhestriad ym 1993), o oddeutu 1794-6. Adeiledd gwreiddiol ar hyd Camlas Tawe yw hwn ac yn enghraifft brin o "bont newid drosodd" yng Nghymru, yn fwy felly oherwydd ei bod wedi'i chyfuno â phont ffordd. Mae hefyd yn "un o ychydig adeileddau'r gamlas sydd ar ôl yn Abertawe" (yn ôl disgrifiad y rhestriad). Gweler Ffigur 11.
- Y Tabernacl, "cadeirlan Anghydffurfiaeth Cymru", a restrwyd yn Radd I ym 1993, ac a ddyluniwyd gan John Humphrey; fe'i disgrifiwyd gan Cadw fel "efallai'r capel crand mwyaf uchelgeisiol yng Nghymru gyda thu allan trawiadol a gosodiadau bron heb eu newid" (Ffig. 12). Mae ei leoliad, ar lethr ar ochr ddwyreiniol Stryd Woodfield wrth y gornel â Stryd y Goron, yn sicrhau bod tri o'i ffasadau'n flaenllaw a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y dyluniad, gyda sylw arbennig wrth gwrs i'r tu blaen sy'n wynebu'r stryd. Y meindwr yw'r uchaf ar gapel anghydffurfiol yng Nghymru – o bosib, yn ôl Hughes, yr uchaf ym Mhrydain (2000: 278)
- Rhoddwyd rhestriad Gradd II i Gapel Seion ar Heol y Clâs ym 1993. Saif y capel hwn yn ôl o'r ffordd mewn mynwent amgaeëdig. Mae gan y capel nifer o gilfachau ac mae cymalau'r 3 blaen wedi'u harddullio â philastrau Tysganaidd.

5.1.1 Mae pob un o'r adeileddau hyn yn chwarae rôl bwysig yn y treflun. Mae Capel Philadelphia'n adeiledd tirnod allweddol yn y strydoedd bach, sef yr unig ran o grid gwreiddiol Edwards sydd ar ôl, ac mae'n diffinio cornel bwysig. Mae'r orsaf heddlu a'i hadeileddau cysylltiedig yn flaenllaw wrth gyrraedd y dref o'r de, ar gornel Stryd Martin a Stryd Banwell. Plas Danbert, Eglwys Sant Ioan a Chapel y Tabernacl yw'r tri adeilad amlycaf yn y dref a gellir eu gweld o bell wrth gyrraedd trwy Gwm Tawe. Mae pwysigrwydd gweledol sylweddol gan bont Stryd Morfydd a'r waliau cysylltiedig, ynghyd â phwysigrwydd hanesyddol ynddi'i hun gan ei bod yn amlinellu llinell Camlas Tawe, sydd bellach wedi'i mewnlenwi.

5.1.2 Nid oes neb wedi byw ym Mhlas Danbert ers peth amser ac mae mewn cyflwr gwael. Mae ei gyflwr yn destun pryder arbennig. Mae ganddo'r potensial o hyd i fod yn adeilad o harddwch trawiadol a diddordeb, yr elfen allweddol yn y strydlun i'r dwyrain o Stryd Woodfield.

5.1.3 Ni chaiff Eglwys Sant Ioan ei defnyddio mwyach at ddibenion crefyddol ac mae'n dechrau dirywio'n ddifrifol. Mae llystyfiant yn ymosod ar ei nodweddion allanol. Mae ei waliau terfyn mewn cyflwr gwael. Nodwedd dirnod allweddol yw hon a oedd yn ganolbwynt y dyluniad ar gyfer y dref gynlluniedig.

5.1.4 Mae'r adeiladau rhestredig eraill mewn cyflwr rhesymol, gyda'r orsaf heddlu yn cael ei defnyddio at ddiben masnachol. Tan 2009, roedd Capel Philadelphia'n adeilad rhestredig adfeiliedig mewn perygl. Mae'r safle bellach yn cael ei ddefnyddio at ddiben masnachol ac mae'r adeilad wedi'i addasu'n cynnwys fflatiau a swyddfeydd. Defnyddir y fangre at ddiben diwydiannol.

5.1.5 Adeilad mwyaf adnabyddus Treforys yw'r Tabernacl sy'n rhoi urddas a chymeriad i Stryd Woodfield. Gellir ei weld o bob man yn y dref ac mae'n dirnod i bobl ar draws y cwm. Mae hefyd yn gyfarwydd i gynulleidfa fyd-eang oherwydd ei ymddangosiadau ar y teledu a'i draddodiad corawl enwog. Rhaid blaenoriaethu ei gyflwr. Am y rheswm hwn, mae astudiaeth bellach ar waith mewn partneriaeth rhwng ymddiriedolwyr y capel, Cadw a'r cyngor i archwilio opsiynau i gynnal yr adeilad yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o reoli'r capel yn y dyfodol fel adeilad cymunedol.

5.1.6 Mae Capel Seion, ar Heol y Clâs, yn adeilad rhestredig Gradd II o fewn yr ardal gadwraeth, wedi'i osod ychydig yn ôl o linell y stryd mewn mynwent fawr. Hwn yw'r adeilad mwyaf blaenllaw rhwng y Groes a chyffordd yr A4067, gan ychwanegu diddordeb ymysg yr adeiladau domestig a manwerthu ar hyd y stryd. Mae ganddo du blaen clasurol trawiadol ac fe'i codwyd yn lle capel cynharach a sefydlwyd ym 1845; cafodd ei ailadeiladu ym 1870. Fe'i dyluniwyd gan John Humphrey o Abertawe, pensaer y Tabernacl, ac mae wedi elwa'n ddiweddar o grant Cadw i sefydlogi'r tu blaen.

# Adeiladau Anrhestredig

5.2 Mae Treforys hefyd yn cynnwys amrywiaeth o asedau treftadaeth heb eu rhestru sydd â gwerth hanesyddol, pensaernïol neu dreflun. Mae nifer o'r rhain wedi cael eu cydnabod ar Coflein, y gronfa ddata a gynhelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

5.2.1 Nodwyd y safleoedd a'r adeileddau gweddilliol canlynol yn yr ardal gadwraeth bresennol neu'n agos iddi:

- Pwll glo Clyn-du, Stryd Upland
- Capel Bedyddwyr Aenon, Heol Cwm Bath (1880)
- Sinema Gem, Heol Sway
- Capel Methodistiaid Calfinaidd Bethania, Stryd Woodfield (1878, a ailadeiladwyd yn y dull Romanésg ym 1888)
- Eglwys Dewi Sant, Stryd Woodfield
- 91a Stryd Woodfield (diwedd y ddeunawfed ganrif, wedi'i ddylunio gan William Edwards ar gyfer Syr John Morris; bellach yn siop). 'Un o ddau dŷ'n unig yn Nhreforys sydd wedi goroesi o gam adeiladu cyntaf y dref.'
- Fila Dyffryn (Ffig. 13), Stryd Morfydd. Roedd Fila Dyffryn, sy'n wynebu llinell y gamlas ym mhen dwyreiniol Stryd Morfydd, yn gartref i berchennog gwaith tunplat yn wreiddiol ac yn ymddangos ar gynlluniau cynnar. Mae'n bosib ei fod yn dyddio o'r un pryd ag y datblygwyd y gamlas.
- Capel Byddin yr Iachawdwriaeth, Stryd Morfydd (Ffig. 14).
- 35 Stryd Morfydd. 'Un o ddau dŷ'n unig yn Nhreforys sydd wedi goroesi o gam adeiladu cyntaf y dref' (Ffig. 15).
- Capel Annibynnol Libanus, Stryd y Farchnad. Fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol ym 1782 gan William Edwards; cafodd ei ailadeiladu gan Thomas Thomas o Landŵr ym 1857, gan John Humphreys o Drefforest ym 1872, ac eto ym 1905 (Ffig. 16).
- Yr Hen Farchnad ac Ysgoldy, Stryd y Farchnad (1827), (Ffig. 17).



Ffigur 13: Fila Dyffryn




Ffigur 14: Byddin yr Iachawdwriaeth



Ffigur 15: 35 Stryd Morfydd




Ffigur 16: Capel Libanus



Ffigur 17: Hen Neuadd y Farchnad

5.2.2 Ar wahân i'w diddordeb hanesyddol, mae gwerth treflun y safleoedd hyn yn bwysig i gymeriad adeiledig y dref gynlluniedig a'i lleoliad. Mae'n werth nodi bod y cynnydd o ran adeiladu neu addasu eglwysi a chapeli yn y 1870au ac ar ôl hynny yn arwydd da o dwf y dref yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r adeileddau hyn yn bwysig i gyfanrwydd cymeriad diwedd Oes Victoria yr amgylchedd adeiledig hanesyddol.

5.2.3 Yn ystod yr arolwg, nodwyd eiddo ychwanegol a allai ddyddio o gyfnod cynnar y dref yn 8A Stryd Morris, sy'n sefyll ychydig yn ôl o'r briffordd ac yn agos at du cefn Stryd y Farchnad. Mae'r hyn sy'n ymddangos fel adeilad gwreiddiol o'r ddeunawfed ganrif wedi'i orchuddio'n rhannol gan estyniad modern. Mae diffyg addurniad allanol ond mae cyfraneddau'r adeilad yn ymddangos yn gywir ac mae mapiau cynnar yn nodi adeiledd ar y safle hwn.

# 6

## CYNIGION I'R FFINIAU

Mae Ffigur 46 yn dangos ffin yr Ardal Gadwraeth fel y'i diwygiwyd, ac mae nodiadau yn y tesun canlynol yn cyfeirio at newidiadau penodol i'r ffin a wnaed fel rhan o adolygiad 2017.

### I'r gogledd

6.1 Ehangwyd yr Ardal Gadwraeth er mwyn gwneud 'sgwâr' o'r ffin bresennol, gan ddechrau o Strawberry Place (A), gan gynnwys y capel ac yn estyn ar hyd ochr ddwyreiniol Stryd Woodfield er mwyn cynnwys yr ardal fasnachol ogleddol i'r Groes (B), gan gynnwys darn byr o hen Heol Pentrepoeth (C), ac yna'n dychwelyd i lawr ochr ddeheuol Heol y Clâs (D) i ymuno â'r ffin bresennol.

Rhesymeg a Lleoliad

6.1.1 I gydnabod datblygiad Treforys yn y 19eg ganrif a rhoi cyfle i statws go iawn gael ei roi i'r groes hynafol gyda Heol Pentrepoeth.

6.1.2 Mae hanes a pherthnasedd Ysgol Pentrepoeth, Heol Sway, ei thai a'r llwybr i'r hyn a oedd yn weithgarwch diwydiannol cynyddol, yn ogystal â Chapel Seion oll yn denu'r ffin tua'r gogledd. Mae'r adroddiad yn argymell nodi'r ardaloedd hyn fel lleoliadau perthnasol.

### I'r dwyrain

6.2 Ehangwyd y ffin er mwyn cynnwys yr ardal i'r gogledd ac i'r de o Bont 'Morfydd' (M), gan ddefnyddio'r ymyl ffordd 'newydd' i gynnwys cymaint o hen ffordd y gamlas a'i chylch ag sy'n amlwg, gan gynnwys Ysgol Gynradd Treforys (N), ffiniau'r gamlas a waliau. I ochr ddeheuol pont Morfydd, mae'r ffin yn cynnwys y gamlas, waliau cynnar nodedig (Stryd Davies (O)), waliau'r rheilffordd, llwybrau a mannau gwyrdd, ac yn dilyn ymyl y ffordd, i lawr i'r ffin ddeheuol a nodwyd uchod. Mae bloc Rhodfa Margam hefyd wedi'i gynnwys (P).

Rhesymeg a Lleoliad

6.2.1 Mae peth o'r hanes mwyaf gwerthfawr, a'r gamlas ei hun, yn rhan o'r estyniad hwn neu'n gyfagos ato. Mae Rhodfa Margam wedi'i chynnwys i 'orffen' y stori a dod â hi i'r ugeinfed ganrif.

6.2.2 Ar yr ochr ddwyreiniol hon, mae hen Heol Castell-nedd a'r llwybrau cynnar dros y gamlas ac, yn ddiweddarach, y rheilffordd i Bont Wychtree, ac i Ran 1 Tref Morris, a gollwyd yn bennaf cyn y gwaith ffordd ac o ganlyniad iddo, yn haeddu cydnabyddiaeth.

### I'r de

6.3 Ehangwyd y ffin i gynnwys hyd llawn Stryd Martin ond nid y datblygiad modern ar yr ochr orllewinol.

Rhesymeg a Lleoliad

6.3.1 Er mwyn amlygu hen gysylltiad Heol Castell-nedd, ei gysylltiad dros y gamlas ac yn hwyrach y rheilffordd, fel a welir yng Nghynllun cynnar Tref Morris.

6.3.2 I'r de, ni cheir unrhyw leoliad o bwys o ganlyniad i waith isadeiledd priffyrdd blaenorol yn ogystal â phresenoldeb unedau masnachol a diwydiant ysgafn newydd sydd wedi newid cynllun a chymeriad yr ardal yn sylweddol.

### I'r gorllewin

6.4 Mae'r ffin yn cynnwys yr hen Mill House Inn a'i dŷ allan (E). Ceir addasiad bach i eithrio'r datblygiad modern ar Stryd Horeb (F) a chynnwys eiddo o droad y ganrif sy'n wynebu i lawr Stryd Slate (G).

6.4 Cadwyd y 'llain ddatblygu' ar y ffin orllewinol, rhwng Stryd Morfydd a Stryd Slate, safle gweithfeydd cloddio gynt (Clyn-Du (H)), a thir arall ar hen linell certi glo ar Stryd Clundu o fewn yr ardal gadwraeth i sicrhau bod datblygiadau'n bodloni 'profion' cadwraeth.

6.4.2 Ehangwyd y ffin gadwraeth i gynnwys eiddo ar frig ochr ddeheuol Morfydd (I) a chynnwys y tŷ/hen fangre fasnachol wrth y gyffordd â Martin (J), lle mae'r ffin yn cynnwys yr eiddo podiwm ar yr ochr is (K) ac yn rhoi'r stryd gyfan yn yr ardal gadwraeth.

6.2.4 Tynnir sylw at Gomin Trewyddfa, Heol Pentremalwed, y tai Fictoraidd, â nodweddion tebyg i'r hyn a geir yn ardal ddiweddarach 'Treforys Isaf' i draciau certi glo Clyndu ac arwyddocâd Parc Treforys. Roedd cefnogaeth gref gan y gymuned i gynnwys y parc yn yr ardal gadwraeth, ond er mwyn gwneud hynny, byddai'n rhaid estyn y ffin yn sylweddol i faint a fyddai'n anodd ei reoli.




Ffigur 46 Ffin Ardal Gadwraeth Ddiwygiedig

# 7

# ARFARNIAD CYMERIAD

7.1 Mae'r drafodaeth ganlynol yn seiliedig yn bennaf ar arolwg gweledol ac yn ddadansoddiad o'r elfennau sy'n ffurfio'r treflun presennol. Rhagdybir nad oes llawer o gartrefi a siopau o'r cyfnod cyn 1850 a'u bod wedi'u cuddio gan ffasadau diweddarach. Adlewyrchir unffurfiaeth sylfaenol dylunio mewn anheddau dosbarth gweithiol o oddeutu 1875 ac roedd addurniad pensaernïol tebyg yn cael ei ddefnyddio trwy gydol diwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif. Yn ei hanfod, yr hyn a welir heddiw, ar gynllun sgwarog llawer cynharach, yw tref o ddiwedd oes Victoria gyda'i chartrefi, ei hadeiladau masnachol a'i haddoldai.

7.1.1 O fewn yr ardal gadwraeth caiff y cynllun grid gwreiddiol ei gynrychioli gan Stryd y Farchnad, Stryd Morris a Stryd Globe. Saif Capel Libanus a Chapel Philadelphia ar safleoedd capeli cynnar, ac mae Neuadd y Farchnad a'r ysgoldy'n dyddio o 1827.

7.1.2 Mae'r hanes o adeiladu a mewnlenwi fesul tipyn o fewn y cynllun grid yn rhoi golwg amrywiol i strydoedd hŷn Treforys yn hytrach na golwg undonog. Yn nodweddiadol, er enghraifft yn Stryd Morfydd a Stryd y Goron, mae datblygiadau ar ffurf terasau byr, fel arfer wedi'u hadeiladu'n uniongyrchol i'r stryd, gyda thai pâr yma ac acw ac, mewn mannau, fila ar wahân neu ar led-wahân fwy sylweddol.

## Elfennau'r cymeriad

7.2 Mae'r elfennau amrywiol a phriodweddau cymeriad a geir mewn lleoliad yn cydweithio i greu ymdeimlad o le a hunaniaeth ar gyfer yr ardaloedd hyn. Yn Nhreforys gwneir cyfraniad allweddol at gymeriad ac ansawdd lle gan y golygfeydd trawiadol a welir wrth gerdded trwy'r dref.

### Golygfeydd

7.2.1 Oherwydd cynllun grid strydoedd Treforys, gwneir cyfraniad allweddol at gymeriad ac ansawdd lle gan y golygfeydd trawiadol a welir wrth gerdded trwy'r dref. O bwysigrwydd penodol mae'r golygfeydd hir trwy'r prif gynllun sgwarog ac ar ei draws. Caiff yr olygfa ar hyd heol lydan, syth Stryd Woodfield (ffigurau 18 ac 19) ei chau yn y pen deheuol gan y sgwâr ac Eglwys Sant Ioan; i gyfeiriad y gogledd, mae'r troad yn y ffordd y tu draw i linell Nant Melyn, a diwedd cynllun grid Edwards, yn rhoi ymdeimlad gwahanol o gau a gadael. Ar gornel Stryd y Goron, caiff yr olygfa ei hatal yn drawiadol gan y Tabernacl, gyda'i du blaen a'i feindwr clasurol beiddgar. Yn fwy diymhongar, rhoddir diddordeb ar hyd y stryd gan yr amrywiaeth yn llinell y toeon a'r ffasadau a chan gorneli sydd fel arfer yn gryf lle mae'r strydoedd croes yn ymgroesi. Fodd bynnag, cafwyd erydiad yng ngolwg unffurf gynharach yr ailddatblygiad modern i'r gogledd o'r Tabernacl, ac mae'r dirywiad hwn yn y cymeriad wedi cael ei ddwysáu o flaen y parêd siopa modern gan gelfi stryd, cynllun llawr ac arwyddion gwael.

7.2.2 Wrth gyrraedd Stryd Woodfield o'r Groes, ceir ymdeimlad o gyrraedd eisoes, wedi'i ddwysáu gan y safleoedd masnachol nodweddiadol sy'n diffinio cornel ogledd-ddwyreiniol y stryd. Mae cymeriad adeiledig y stryd fawr eisoes yn amlwg ac, ar y troad yn y ffordd sy'n diffinio llinell flaenorol Nant Melyn, mae'r olygfa hir sy'n ymagor y tu draw i'r Tabernacl i Sgwâr Sant Ioan (Ffig.18) yn drawiadol.

7.2.3 Y tu hwnt i Eglwys Sant Ioan, mae'r olygfa tua'r de yn agored yn bennaf, ond ceir diddordeb o ganlyniad i flaenau preswyl da ar Stryd Martin a'r orsaf heddlu restredig ar gornel Stryd Banwell. Mae'r ffordd nesáu ar hyd Stryd Martin o'r de hefyd yn ddiddorol o ran ei golwg. Caiff y sylw ei ddal ar unwaith gan yr eglwys yn y pellter yn ei 'sgwâr' ac, ar y dde wrth i'r stryd ddringo, gan dalcen a simneiau'r orsaf heddlu Fictoraidd (Ffigur 20). Y tu allan i'r ardal gadwraeth ar yr ochr orllewinol, ond yn amlwg i'r gwyliwr, mae'r teras byr ar lwyfan uwchben lefel y stryd yn creu ymdeimlad cryf o gyrraedd, fel y mae Tafarn y Swan ar gornel ddwyreiniol Stryd Martin. Mae datblygiadau modern yn tarfu ar y llinell adeiladu yn y gorllewin, ond caiff yr ymdeimlad o le ei adfer gan ansawdd corneli Stryd Banwell a Stryd Martin.

7.2.4 Mae golygfeydd trawiadol i'r ddau gyfeiriad ar hyd Stryd Morfydd (Ffig. 21), Stryd y Goron (Ffig. 22) a Stryd Slate (Ffig. 23) yn bwysig. I'r gorllewin caiff y rhain eu cau gan y llechwedd a serthrwydd cynyddol llinell y cynllun grid; caiff y llygad ei ddal hefyd gan y grwpiau

afreolaidd o derasau byr o ganol a diwedd Oes Victoria. Ar un adeg, byddai'r cyd-destun yn ddiwydiannol yn bennaf, gyda gweithfeydd glo ar y llechwedd sydd wedi gadael eu hôl yn y tir ansefydlog ac, o fewn yr ardal gadwraeth, safle pwll glo. Caiff yr olygfa ar hyd Stryd Morfydd ei chau gan yr eglwys a'r sgwâr a fwriadwyd i fod yn ganolbwynt y dref gynlluniedig, a'r ardal lle datblygodd gweithgarwch masnachol cynnar. Tua'r dwyrain, mae gan bob un o'r strydoedd croes olygfeydd agored dros Gwm Tawe i'r dwyrain - yn wahanol iawn i gymeriad diwydiannol myglyd a thrawiadol lleoliad y dref yn y gorffennol.

7.2.5 I'r gorllewin o Stryd Woodfield, caiff golygfeydd ar hyd y strydoedd croes eu gwella gan y llinell adeiladu afreolaidd, amrywiadau yn y cymeriad adeiledig, a'r llinell doeon risiog. I'r dwyrain o Stryd Woodfield, ar hyd Stryd Morfydd a Stryd y Goron, mae ffordd ddeuol lydan a phrysur Heol Castell-nedd bellach yn torri ar draws y ddisgynfa i'r afon. Mae'r cymeriad cynharach wedi cael ei wanhau gan ddatblygiadau mewnlenwi modern. Fodd bynnag, tuag at linell y gamlas a Stryd Davies, mae coed yn rhoi ymyl werdd i'r gornel hon o'r dref (Ffig. 24).



Ffigur 18: Yr olygfa i'r de ar hyd Stryd Woodfield




Ffigur 19: Yr olygfa i'r gogledd ar hyd Stryd Woodfield



Ffigur 20: Yr olygfa i'r gogledd ar Stryd Martin tuag at Eglwys Sant Ioan



Ffigur 21: Yr olygfa tua'r dwyrain ar hyd Stryd Morfydd



Ffigur 22: Yr olygfa hir tua'r dwyrain ar hyd Stryd y Goron



Ffigur 23: Yr olygfa tua'r dwyrain ar hyd Stryd Slate



Ffigur 24: Ymyl werdd ar ymyl ddwyreiniol Treforys

7.2.6 Mae Stryd Glantawe'n ymestyn i'r gogledd o'i chornel â Stryd Morfydd yn gyfochrog â Stryd Woodfield. Mae'r olygfa i'r ddau gyfeiriad ar hyd y stryd hon yn olygfa bwysig, eilradd yn y dref gynlluniedig. Ychwanegir at ei diddordeb gan y llinell adeiladu afreolaidd (yn benodol rhwng Stryd Morfydd a Stryd y Goron), ac amrywiadau o ran lled (Ffig. 25). Lle mae Stryd Glantawe'n croesi llinell Nant Melyn a ffin y cynllun grid, mae'r ffordd yn gwyro tua'r dwyrain yn gyfochrog ag estyniad Stryd Woodfield wrth iddi nesáu at Heol y Clâs. I'r de, mae Stryd Glantawe'n cysylltu â Stryd y Farchnad. Yma mae'r troad a'r disgyniad i linell y stryd yn atgyfnerthu'r ymwybyddiaeth eich bod yn cyrraedd rhan wahanol o'r dref lle mae'r cynllun grid gwreiddiol a'r cynllun diweddarach yn ymuno.

7.2.7 Dim ond rhan o Heol y Clâs, datblygiad sy'n dyddio o ddiwedd Oes Victoria, sef o'r Groes i'r hen bont reilffordd, sydd o fewn yr ardal gadwraeth bresennol ond mae'n rhannu'r un cymeriad adeiledig yn ei hanfod o ran addurniad masnachol a phreswyl, er bod datblygiadau modern yn tarfu arni, yn benodol ar gornel Stryd Glantawe. Mae adeilad yr hen orsaf yn sefyll o hyd ar ochr ddeheuol y bont, ond mae ailddatblygu o fewn ardal yr orsaf a'r hen seidins wedi tarfu ar gyfanrwydd y strydlun, ac mae wedi cael ei golli'n llwyr lle adeiladwyd y cynllun ffyrdd modern, tynnwyd Pont Wychtree a chodwyd y neuadd fingo fodern ar gornel Heol Castell-nedd a Heol y Clâs.




Ffigur 25: Stryd Glantawe

7.2.8 Rhwng Stryd Green a Heol y Clâs, mae Rhodfa Margam (Ffig.26), a adeiladwyd ychydig ar ôl y Rhyfel Mawr ond sydd, yn ei hanfod, yn Edwardaidd ei golwg, yn creu ffin rhwng datblygiadau Fictoraidd ac Edwardaidd. Mae'n unigryw o ran ei chynllun gyda rhesi o bedwar tŷ mewn gerddi blaen mawr mewn ffordd sy'n rhoi rhywfaint o ymdeimlad gardd-ddinas i'r stryd. Mae'r adeiladau brics coch yn cydweddu â'r rhesi byr o dai Edwardaidd â ffenestri crwn sydd i'w gweld mewn rhannau eraill o'r dref gynlluniedig, a'r rhai yn y cyflwr gorau yw rhif 1 i 4. Mae cyswllt lôn da â Stryd Glantawe.



Ffigur 26: Rhodfa Margam




Ffigur 27: Map o asedau treftadaeth

7.2.9 O bellter, yn union fel mae cyrraedd Treforys yn creu ymdeimlad o achlysur, felly mae'r teimlad mai lle arbennig yw hwn yn cael ei greu gan amlygrwydd y dref o bellter, yn benodol pan gaiff ei gweld o'r dwyrain, boed hynny'n nesáu ar y ffordd neu ar drên. Ar y raddfa hon, mae amlygrwydd y Tabernacl sy'n tynnu'r sylw at y dref ar y llechwedd yn benodol o bwysig fel tirnod ar draws y cwm.

## Natur amgaeedig

7.3 Mae rhannau o'r dref yn fwy nodedig am eu natur amgaeedig yn hytrach nag ymdeimlad agored. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y dref sydd wedi cael ei datblygu'n fwy tynn gyda thai dosbarth gweithiol wedi'u gosod mewn lleiniau llai'n agos i'r orsaf. Yr un sefyllfa a geir ar hyd Stryd y Farchnad a Stryd Morris, o fewn gweddillion y cynllun grid cyntaf. Y tu allan i'r ardal gadwraeth bresennol yn y pen deheuol, ond yn ddiau'n rhan annatod o'r gymdogaeth hon, mae'r rhan fer o Heol Castell-nedd sy'n gysylltiedig â Thafarn y Swan ac ardal agored sy'n edrych dros ffordd fodern yr A4067. Mae gan y Swan ei chymeriad cynhenid ei hun ac, mewn ffordd ddiymhongar, mae'n gweithio fel nodwedd porth.

## Adeiladau tirnod

7.4 Mae gan nifer o adeileddau swyddogaeth arbennig wrth lunio'r treflun lleol yn rhinwedd eu hamlygrwydd a'u cymeriad pensaernïol.

7.4.1 Mae tri adeilad yn benodol yn dirnodau eithriadol, sef:

- Eglwys Sant Ioan - er mai adeilad cymharol ddinod yw'r eglwys hon, mae'n chwarae rhan ddiffiniol bwysig o fewn dyluniad y dref gynlluniedig ar yr un pryd â bod yn ganolbwynt i'r hyn y bwriedid iddo fod yn lle cymdeithasol a masnachol pwysig. Mae'r tŵr yn creu diddordeb gweledol cryf.
- Y Tabernacl – adeilad rhestredig Gradd I nodedig sy'n dirnod pwerus i'r ardal leol a'r cwm cyfan, ac mae ganddo ran bwysig yn hanes Anghydffurfiaeth a cherddoriaeth Cymru. Wedi'i adeiladu ym 1872, mae'n symboleiddio hunanhyder a chydlyniad cymdeithasol y dref ymledol. Gellir honni y newidiodd adeilad y Tabernacl y canolbwynt masnachol ar hyd Stryd Woodfield, gan annog buddsoddiad a datblygiad ar hyd ei rhannau canolog a gogleddol gan atgyfnerthu, yn ôl pob tebyg, yr atyniad o'r groesffordd â Heol y Clâs.
- Plas Danbert - er gwaethaf ei gyflwr dirywiol a'i leoliad i'r dwyrain o linell ganol y cynllun grid, mae'r adeilad yn elfen flaenllaw a phensaernïol bwysig o'r treflun. Ynghyd â'r Tabernacl ac Eglwys Sant Ioan, gellir ei weld o sawl lleoliad yn Nhreforys; ar yr un pryd, mae'n rhan o'r olygfa i'r dwyrain ar hyd stryd Morfydd ac yn nodi pen yr olygfa i'r de ar hyd Stryd Glantawe. Yn gartref i Daniel Edwards, yr entrepreneur tunplat, mae hwn yn fila o faint ac uchelgais eithriadol o ystyried y cyd-destun lleol, yn symbol o gyfoeth a chwaeth meistri hunanhyderus y cwm.

Mae gan y tri adeiledd hyn arwyddocâd gweledol yng nghyd-destun cyffredinol y dref. Mae adeileddau eraill yn bwysig i'w amgylchedd a'u lleoliad cyfagos, gan roi diddordeb ac unigrywiaeth i linell stryd, neu ddiffinio cornel bwysig.

7.4.2 O fewn y cynllun grid gwreiddiol, saif Libanus ar safle'r capel a ddyluniwyd yn wreiddiol gan Edwards ar gyfer y trigolion hynny yn nhref newydd Morris nad oedd eu teimladau crefyddol wedi'u diwallu gan yr Eglwys Anglicanaidd eangfrydig a ffefrid gan y perchnogion a'r bonedd. I bob pwrpas roedd yn nodi cornel ogleddol y cynllun grid gwreiddiol hwnnw, ac yn nyluniad y dref gynlluniedig ehangach roedd yn israddol i Eglwys Sant Ioan, a safai yng nghanolbwynt bwriedig y dref. Ceir y canolbwynt hwn i'r de-ddwyrain ac o dan Eglwys Sant Ioan, ond mae yntau'n flaenllaw ar y troad a'r disgyniad i'r de o Stryd y Farchnad, gerllaw hen adeilad y farchnad. Er gwaethaf ei bwysigrwydd a'i rinwedd bensaernïol, nid yw Libanus yn rhestredig. Serch hynny, mae'n nodedig am ei bensaernïaeth ac am fod yn addoldy cyntaf y dref.

7.4.3 Yn wahanol i Gapel Libanus, saif Capel Philadelphia (Ffig. 28) gyda'i fans a'i ysgoldy ar gornel Stryd Globe a Stryd Morris ac mae'n adeilad rhestredig gradd II (gan darddu'n wreiddiol o 1802, wedi'i ailadeiladu ym 1829, wedi'i ailfodelu ym 1935) gyda thu allan clasurol syml a thu mewn o ddechrau'r 19eg ganrif. Ar hyn o bryd fe'i defnyddir at ddiben masnachol ar ôl cael ei adnewyddu yn 2009. Mae Philadelphia ynghyd â Libanus yn adeiledd diffiniol allweddol o fewn yr hyn sydd ar ôl o'r grid gwreiddiol, gan roi cymeriad unigryw i'r rhan o Stryd Globe sy'n weddill. Uwchlaw, ar Stryd y Farchnad, mae hen adeilad y farchnad (1827) yn cau'r olygfa ar hyd y llethr fer at i fyny.

7.4.4 Yn llai amlwg, ond o ddiddordeb pensaernïol, gyda threswaith Gothig pren gweddilliol, ac yn cau'r olygfa'n rhannol i'r gorllewin ar hyd Stryd Globe, mae adeilad y farchnad a'r ysgoldy o 1827 yn rhoi'r enw i Stryd y Farchnad ac yn ychwanegu mwy o ddiddordeb gweledol at y strydlun (Ffig. 29).



Ffigur 28: Capel Philadelphia



Ffigur 29: Adeilad y farchnad ac ysgoldy

7.4.5 Mae Eglwys Dewi Sant, Stryd Woodfield (1890), yn flaenllaw yn lleol ac yn gweithredu fel porth. Mae ei lleoliad wrth adael y dref gynlluniedig ar ochr ddeheuol Nant Melyn yn helpu i gau'r olygfa tua'r gogledd ar hyd Stryd Woodfield. Mae'n rhan o stori ehangach lle roedd eglwysi a chapeli'n cael eu hailadeiladu neu eu hadeiladu o'r newydd i wasanaethu poblogaeth gynyddol Treforys ddiwedd oes Victoria.

7.4.6 Mae hen orsaf yr heddlu a'r ystafell ddarllen ar groesffordd Stryd Banwell a Stryd Martin mewn cornel flaenllaw a chyffordd y ddau grid sy'n diffinio cynllun cynnar Treforys.

7.4.7 Saif Fila Dyffryn ar gyffordd Stryd Morfydd a Stryd Davies o fewn gardd amgaeëdig fwy sydd â waliau mewn dull tebyg i'r waliau rhestredig sy'n gysylltiedig â phont y gamlas. Gallai'r adeiledd presennol, er ei fod yn amlwg wedi cael ei weddnewid a'i estyn, fod yr adeiledd a ddangosir ar y cynllun o 1796. Ar ôl hyn roedd y tŷ'n gysylltiedig â Daniel Edwards a sefydlodd waith tunplat lleol Dyffryn ym 1873 ac a adeiladodd Blas Danbert yn ddiweddarach. Yn flaenllaw o ran golwg, mae ei ardd fawr, furiog yn gwella gwedd agored y rhan o'r ardal gadwraeth sy'n gysylltiedig â llinell flaenorol y gamlas.

## Corneli

7.5.1 Mae adeiladau cornel yn sbardunau gweledol pwysig ar hyd Stryd Woodfield:

7.5.2 Mae gan Sgwâr Sant Ioan gorneli cryf ar bob ochr ond yr un dde-orllewinol. Mae math a ffurf yr adeiladau, gan gynnwys y fila ar wahân nodedig o'r 19eg ganrif ar y gornel ogledd-ddwyreiniol, yn adlewyrchu pwysigrwydd masnachol blaenorol y canolbwynt trefol arfaethedig.

7.5.3 Ar hyd Stryd Woodfield yn benodol, mae adeiladau cornel cryf yn nodi croesffyrdd strydoedd fel a ganlyn:

- Corneli de-orllewinol a de-ddwyreiniol Stryd y Goron (Ffig. 30), gan wynebu capel blaenllaw'r Tabernacl i'r gogledd-ddwyrain.
- Stryd Slate: nodir y gornel dde-orllewinol gan floc trillawr trawiadol â nodweddion dormer, bricwaith a ffenestri da, a chilfach gref i'r gorllewin. Mae'r gornel ogledd-orllewinol yn llai trawiadol ond mae ganddi beth diddordeb gweledol oherwydd bae bargodol deulawr.
- Ar hyd Stryd Glantawe, mae Plas Danbert a'i wal derfyn gysylltiedig yn creu mynediad trawiadol o Stryd Morfydd. Mae cyfle o hyd i wella golwg yr ystafelloedd plwyfol sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd (SPARK Treforys erbyn hyn) sy'n llenwi cornel dde-orllewinol cyffordd Stryd Slate a Stryd Glantawe.




Ffigur 30: Enghreifftiau o adeiladau cornel trawiadol

## Amrywiaeth ar Strydoedd Preswyl

7.6.1 Yn enwedig yn rhan uchaf Treforys, strydoedd teras gydag ambell fila Fictoraidd ar wahân neu ar led-wahân a geir yn bennaf, gyda nodweddion gweddilliol da'n aml.

7.6.2 Terasau byr sy'n nodweddu'r rhan fwyaf o strydoedd preswyl Treforys, gan mwyaf wedi'u hadeiladu'n uniongyrchol ar y stryd neu gydag ardaloedd blaen bach. Dim ond yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y dref y ceir terasau hwy, di-dor. Ar Stryd Morfydd, Stryd y Goron a Stryd Slate, i'r gorllewin o Stryd Woodfield, y tirnodau lleol yw filâu Fictoraidd ar wahân neu ar led-wahân o ddyluniad unigol sy'n wahanol i'r amrywiaeth prin o dai teras, a safleoedd masnachol achlysurol (gweler enghreifftiau yn ffigurau 31 a 32).



Ffigur 31: 9-10 Stryd y Goron



Ffigur 32: 45 Stryd Slate

7.6.3 Mae'r enghreifftiau canlynol yn arbennig o nodedig:

- Siop ar gornel Stryd Banwell a Stryd Martin.
- 6/7 Stryd Banwell, safle hynod, yn hen fangre masnachol mae'n debyg.
- Neuadd Byddin yr Iachawdwriaeth, Stryd Morfydd, ffasâd carreg cain â nodweddion bric lliw ar y talcen ac mae ffenestri'n gweddu i'r teras cyfagos.
- Fila Roseberry, 33 Stryd Morfydd.
- 35 Stryd Morfydd – sydd wedi goroesi o'r ddeunawfed ganrif â ffasâd cymesur a ffenestri codi.
- 9-10 Stryd y Goron: fila ddeulawr ar led-wahân sylweddol â ffasâd carreg, islawr a ffenestri dormer; ffenestri crwm i'r llawr gwaelod a'r islawr; grisiau'n dringo o'r stryd i'r fynedfa. Dull Gothig â nodweddion carreg Caerfaddon i fynedfeydd a ffenestri. Mae'r bae dwyreiniol yn cadw'r nodweddion gwreiddiol ar ei falwstrad. Mae simneiau rhif 10 wedi goroesi. Adeiledd Fictoraidd pwysig yw hwn, efallai'n ail yn unig i Blas Danbert fel enghraifft o dai dosbarth canol yn y dref gynlluniedig.
- 15 Stryd y Goron, tŷ â ffasâd carreg a dau fae a adeiladwyd gyda mynedfa bwaog sylweddol yn yr iard gefn. Mae'r tŷ tebyg yn 5 Stryd Green yn dyddio o 1908.
- 45 Stryd Slate, ar lwyfan ag arwyneb carreg uwchlaw lefel y stryd; fila ddeniadol â bae deulawr a ffenestr ddormer yn y talcen. Mae nodweddion gwreiddiol ymyl bondo'r talcen wedi parhau yn ogystal â nodweddion pren y bae gyda'i oleuadau pen crwn. Collwyd y ffenestri codi.
- 6 a 7 Stryd Slate: tai pâr â ffasâd carreg a dau lawr a hanner â nodweddion carreg nawdd syml ar y ffenestri a'r mynedfeydd. Wedi'u hadeiladu'n syth ar y stryd.
- 10 Stryd Slate: fila syml ar wahân, â bae unllawr a thalcen. Mowldinau pen cylchrannol gwreiddiol o amgylch y drws a ffenestri'r llawr cyntaf.

7.6.4 Rhwng Stryd Woodfield a Glantawe, mae gan y strydoedd croes naws led-fasnachol sy'n eu gwahaniaethu o'u hestyniadau i'r gogledd o brif echelin y dref. Mae gan Stryd Morfydd enghreifftiau da o nodweddion cyfnod yn y lle hwn, yn benodol gyda Chlwb Grove a'r tai pâr i'r dwyrain o'r clwb. Mae Clwb Grove yn nodedig am ei fae nodweddiadol, yn grwn ar y llawr gwaelod ac yn sgwâr uwchben; mae nodweddion da ar faeau a drysau'r tai cyfagos wedi goroesi, yn ogystal â ffenestri dormer.

7.6.5 Rhoddir cymeriad i ochr ogleddol Stryd y Goron gan weddlun deheuol y Tabernacl gyda'i fans cysylltiedig y tu ôl i'r waliau terfyn. Mae'r mans wedi colli nodweddion gwreiddiol y ffasâd. Gyferbyn, mae'r bar New Woodfield mewn fila Fictoraidd ar wahân â bae deulawr a thalcen.

7.6.6 Yn Stryd Slate, mae nodweddion mynedfa a ffenestr deniadol i lawr gwaelod Clwb y Gweithwyr, ond nid yw'r cynllun paentio bras wedi bod yn fuddiol i'r clwb.

7.6.7 Rhoddir cymeriad ychwanegol i Stryd y Farchnad gan Centrepoint, safle masnachol deulawr hynod â nodweddion brics coch trawiadol ar y ffasâd.

## Addurniad Domestig a Masnachol

7.6.8 Mae blaenau wedi'u hadeiladu â thywodfaen Pennant lleol yn nodweddiadol o lawer o'r tai teras ac ar led-wahân Fictoraidd yn Nhreforys. Yn aml bydd y rhain wedi'u rendro neu eu chwipio â gro i guddio'r gwreiddiol. Roedd terasau Fictoraidd diweddarach a rhai Edwardaidd yn cael eu gorchuddio'n amlach â brics coch. Mae'r rhain wedi cael eu rendro, er enghraifft, yn Stryd Glantawe a Stryd Bedford. Yn Stryd Woodfield, mae gan yr eiddo masnachol hŷn fathau amrywiol o orffeniad a rendrad, gyda brics coch a charreg leol yn gyffredin. Fodd bynnag, yn aml mae'r tu blaen wedi cael ei rendro neu'i baentio. Roedd toeon wedi'u gwneud o lechi fel arfer, gyda simneiau brics, ond yn aml mae'r rhain wedi cael eu hailosod â theils ac ymddengys i'r simneiau gael eu tynnu pan newidiwyd y toeon, gan amharu ar gymeriad yr ardal gadwraeth.

7.6.9 Mae cryn nifer o nodweddion cyfnod wedi cael eu herydu, ar hyd strydoedd preswyl ac yn Stryd Woodfield. Fodd bynnag, mae digon o enghreifftiau ar ôl i roi cymeriad i du blaen eiddo a bod yn fodelau ar gyfer gwaith adfer posib. Mae'n hanfodol i gymeriad yr ardal gadwraeth i warchod yr asedau sy'n weddill, yn benodol fframiau drysau, ffenestri bae, ffenestri codi, ymylon bondo a blaenau siop traddodiadol. Yn ei gyd-destun, nid yw'r diddordeb gweledol a grëir gan fframiau drysau ym mlaenau tai'r teras yng nghwadrant gogledd-ddwyreiniol y dref, sydd fel arall yn weddol ddi-nod, yn llai gwerthfawr na'r ffenestri bae a chasys drysau mwy cywrain sydd wedi goroesi mewn mannau eraill. Gellid defnyddio dynodiadau Erthygl 4 penodol iawn sy'n nodi safleoedd penodol lle mae nodweddion gwreiddiol wedi'u cadw er mwyn cyfyngu ar hawliau datblygu mewn lleoliadau allweddol.

## Waliau

7.7.1 Ar wahân i'r waliau rhestredig sy'n gysylltiedig â phont Stryd Morfydd a Stryd Davies, mae'r ardal gyfagos yn cynnwys enghreifftiau pwysig o waliau anrhestredig (Ffig. 33) sy'n gysylltiedig â llinell y rheilffordd, gyda Phlas Danbert, Fila Dyffryn a'r fila dau fae ar wahân y tu draw i'r bont droi, sydd y tu allan i'r ardal gadwraeth ar hyn o bryd. Mae'r defnydd o slag copr mewn waliau lleol (Ffig. 34) yn gwneud cyfraniad sylweddol at y cymeriad lleol ac yn un o ychydig olion y diwydiant a oedd y rheswm dros sefydlu'r dref. Ar Stryd Woodfield, mae wal berimedr y Tabernacl yn elfen bwysig o'r cyfansoddiad.



Ffigur 33: Waliau



Ffigur 34: Mae'r defnydd o slag copr mewn waliau lleol yn amlygu'r gorffennol diwydiannol

## Nodweddion Cyfnod

7.8.1 Yn rhan uchaf Treforys ac ar hyd Stryd Martin yn benodol, ceir enghreifftiau da o ffenestri crwm a fframiau drysau traddodiadol sydd wedi goroesi (Ffig. 35). Fodd bynnag, ar hyd holl strydoedd preswyl y dref mae enghreifftiau mynych o addurniadau unigol o amgylch drysau blaen. Weithiau mae'n anodd gwahaniaethu rhwng gwaith diweddar a gwaith gwreiddiol. O ganlyniad, mae hyd yn oed tai traddodiadol dinod yn rhan ogledd-ddwyreiniol y dref yn cael eu nodweddu gan orffeniadau personoli.



Ffigur 35: Enghreifftiau o nodweddion drysau a ffenestri cyfnod

Nodweddion Gwyrdd

7.9.1 Mae prinder coed stryd da yn Nhreforys. Mae gwerth treflun gan enghreifftiau o flaen Llys Jim Havard a Stryd Morfydd ac ar hyd pen gorllewinol Stryd Davies. Mae mannau gwyrdd ar hyd llinell y gamlas gynt yn ymyl bwysig i'r dref gynlluniedig ac maent wedi'u nodi am haeddu cynllun gwella. Mae cymeriad gwyrdd y lleiniau gardd yn Nhreforys Uchaf o gryn bwysigrwydd gweledol yn y gwanwyn a'r haf; mae'r gerddi hyn yn helaeth ac yn cynnwys nifer o goed aeddfed blaenllaw.

## Ardal y Gamlas

7.11.1 Mae gan linell y gamlas a lanwyd i mewn werth fel ymyl werdd i'r ardal gadwraeth (Ffig. 36) ond mae'n ddiarffordd ar hyn o bryd.





Ffigur 36: Yr ymyl werdd a ddarperir gan yr hen gamlas

# 8

## ARDALOEDD O GYMERIAD

8.1 Prin mae diffiniad o ardaloedd cymeriad yn glir. Yn aml, gall dadansoddiad fesul stryd fod yn effeithiol. Yn achos Treforys mae defnyddio cymysgedd o ddulliau'n gweithio'n dda. Mae'r diffiniad o ardaloedd cymeriad hefyd yn cyfeirio'r adolygiad o ffiniau a dulliau o bennu'r ardal gadwraeth. Dylid ystyried y ffiniau a awgrymwn ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol fel rhai dangosol yn hytrach na rhaniadau clir yn y fan a'r lle.

### Stryd Woodfield

8.2 Mae gan ochr orllewinol Stryd Woodfield res ddi-dor o adeiladau sy'n dyddio'n bennaf i'r cyfnod cyn 1914, a dim ond croesffyrdd strydoedd yn torri ar draws y llinell adeiladu. Dylanwedir yn gadarnhaol ar y cymeriad gan amrywiaeth yn y dulliau adeiladu a thriniaeth uchder a gweddluniau adeiladau, ac mae adeiladau tirnod lleol yn rhoi diddordeb i sawl cornel. Mae gan loriau uchaf amrywiaeth uwchlaw'r stryd, ac mae nifer o eiddo wedi cadw ffenestri codi. Mae tu blaen llawr gwaelod eiddo yn llai diddorol yn gyffredinol, ond ceir enghreifftiau o flaenau siop traddodiadol a gallai fod mwy nad ydynt wedi cael eu darganfod eto. Y tu hwnt i'r grid, mae datblygiad tebyg yn parhau hyd at y Groes. Ar yr ochr ddwyreiniol, saif Tabernacl fel etifeddiaeth bensaernïol eithriadol; fel arall, amherir ar gymeriad diwedd oes Victoria gan ddatblygiad modern rhwng Stryd y Goron a Stryd Slate, sef bloc modern.

8.2.1 Felly mae stryd fawr Treforys wedi cadw ei chymeriad traddodiadol i raddau helaeth. Mae gan adeiladau cornel, gan gynnwys y Crown Inn, werth treflun sylweddol. Er gwaethaf sawl enghraifft o arwyddion gwael, a'r ailddatblygiadau modern ar ochr ddwyreiniol y stryd, mae blaenau siop traddodiadol a nodweddion lloriau uchel da yn rhoi ansawdd lle sylweddol (gweler ffigurau 37 a 38). Mae'n debygol bod rhagor o nodweddion wedi'u gorchuddio gan driniaethau diweddar i du blaen eiddo.

8.2.2 O ran cymeriad, Stryd Woodfield yw prif echelin y dref gynlluniedig. Mae'r olygfa syth o'r gogledd i'r de ac i'r cyfeiriad arall yn parhau'n bwysig, gan ddenu'r sylw at y sgwâr a'r eglwys yn y pen deheuol a chornel Eglwys Dewi Sant yn y pen gogleddol. Mae'n debyg mai'r bwriad gwreiddiol oedd creu'r sgwâr i fod yn ffocws y stryd a bywyd masnachol y dref, er ei bod yn bosib y bu cynllun unwaith i greu lle marchnad ymhellach i'r gogledd hefyd. Y realiti oedd bod datblygiad yn oes Victoria yn cael ei ddenu tuag at y Groes, Heol y Clâs ac adeilad y Tabernacl, Bydd Eglwys Dewi Sant a Bethania




Ffigur 37: Amrywiaeth yn lloriau uchaf adeiladau ar hyd Stryd Woodfield





Ffigur 38: Amrywiaethau ym mlaenau siopau

wedi atgyfnerthu'r addasiad hwn o ran disgyrchiant. Mae rhannau dwyreiniol Stryd Slate, Stryd y Goron a Stryd Morfydd i'r cyffyrdd â Stryd Glantawe wedi'u cynnwys yn yr ardal gymeriad. Mae gan y rhain gymeriad lled-fasnachol sy'n gwrthgyferbynnu â defnydd tir gweddill yr ardal astudiaeth, sydd gan mwyaf yn ddefnydd preswyl.

8.2.3 Mae adeiladau crefyddol yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad y stryd. Mae ansawdd unigryw gan y Tabernacl, ac mae o bwysigrwydd pensaernïol a chymdeithasol sylweddol. Mae'n rhoi cryn urddas i gyfansoddiad y stryd. Mae ei glasuriaeth yn gydbwysedd da i ddulliau Gothig a Romanésg ei gyd-addoldai. Rhwng Eglwys Dewi Sant a'r Groes mae Bethania'n gwneud cyfraniad pwysig at linell y stryd.

# Treforys
## Ardaloedd cymeriad




1. Treforys Uchaf
2. Stryd Woodfield
3. Cwadrant y gogledd-ddwyrain: pen gogleddol Stryd Glantawe, Heol y Clâs, Stryd Bedford, Stryd Slate, Stryd Green a Rhodfa Margam
4. Stryd Glantawe rhwng Stryd Morfydd a Stryd Slate
5. Treforys Isaf: Stryd y Goron, Stryd Morfydd, Stryd Davies
6. Y grid gwreiddiol: Stryd Globe, Stryd y Farchnad a Stryd Morris
7. Stryd Martin
8. Ardaloedd cymeriad cyfagos

8.2.4 Ar ochr ddwyreiniol y stryd, mae adeiladau modern wedi amharu ar gymeriad Fictoraidd tu blaen eiddo'n rhannol, diffyg y mae'r Tabernacl yn ceisio'i unioni. Ar ochr orllewinol, fodd bynnag, mae gan yr adeiladau gymeriad cyn 1914 gan mwyaf. Yn gyffredinol, mae undod cryf o ran naws cyfnod ac, felly, ansawdd lle y mae nodweddion cornel trawiadol a nodweddion ffasâd gweddilliol yn cyfrannu atynt. Fodd bynnag, mae 91a yn llawer cynharach, nodwedd greiriol o ddiwedd y ddeunawfed ganrif a ddyluniwyd, yn ôl pob tebyg, gan Edwards. Mae ei du blaen dull y dadeni ac uchder isel ei fondo yn ei wahaniaethu rhag yr adeiladau o'i amgylch. Mae'n adeiledd prin a phwysig i oroesi (gweler Ffigur 40).




Ffigur 40: 91a Stryd Woodfield

8.2.5 Mae elfennau negyddol yn cynnwys erydiad y ffenestru gwreiddiol, colli neu orchuddio blaenau siop traddodiadol, cyflwr gwael celfi stryd, safonau goleuo gwael ac ymagwedd anghyson at arwyddion. Nid yw gwrthdaro rhwng traffig a cherddwyr wedi cael ei ddatrys gyda thagfeydd yn broblem, yn benodol tuag at y Groes. Caiff gwaith cynnal a chadw a gwella gan berchnogion ei fygwth gan economi wan y stryd a nifer cynyddol o eiddo gwag neu eiddo nad oes digon o ddefnydd arnynt. Felly mae angen brys i fod yn rhagweithiol wrth reoli'r ardal gymeriad.

## Treforys Uchaf

8.3 Caiff Treforys Uchaf ei chynrychioli gan rannau gorllewinol Stryd Morfydd, Stryd y Goron, Stryd Slate, Heol Horeb, ynghyd â Stryd Harris, rhan o Stryd Clyndu, Heol Caerfaddon, Teras Uplands a Stryd Banwell. Mae'n cynnwys safle pwll glo wedi'i glirio, a bylchau yn y llinell adeiladu ar Stryd Banwell a Stryd Slate. I'r gorllewin o Stryd y Goron, mae datblygiad ar y cynllun grid yn ymdoddi i ddatblygiad tai mwy afreolaidd ar y llechwedd ddiwydiannol uwchben y dref gynlluniedig. Fodd bynnag, mae terasau i'r gorllewin o'r cynllun grid yn debyg o ran dull a nodweddion gweddilliol anheddau yn y dref gynlluniedig. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau'n dyddio o ganol i ddiwedd oes Victoria, fel arfer ar ffurf rhesi y mae eu mynedfeydd yn ymagor i'r stryd.

8.3.1 I'r gorllewin o Stryd Woodfield, mae'n debyg y gosodwyd tai newydd yn lle tai cynharach rhwng 1860 a diwedd y 19eg ganrif, yn ogystal â datblygiad newydd ar safleoedd a fu heb lawer o adeiladau cyn hynny. Er enghraifft, dengys map 1876 yr AO ddiffyg adeiladau ar ochrau deheuol Stryd Slate a Stryd y Goron. Rhannol adeiledig yn unig oedd ochr ddeheuol Stryd Morfydd a nifer bach o adeiladau oedd ar Stryd Banwell. Fel arfer, er enghraifft ar Stryd Morfydd a Stryd y Goron, rhesi teras byr yw'r datblygiadau, wedi'u hadeiladu gan amlaf yn uniongyrchol i'r stryd.

8.3.2 Yn Nhreforys Uchaf, mae'r rhan fwyaf o adeiladau'n deillio o ganol i ddiwedd oes Victoria, gan mwyaf mewn terasau byr, ond mae'r strydoedd hefyd yn cynnwys enghreifftiau o filâu ar wahân a lled-wahân a adeiladwyd cyn 1914. Bu peth mewnlenwi, rhwng y rhyfeloedd yn bennaf. Ceir enghreifftiau da o ffenestri bae a thriniaethau fframiau drysau traddodiadol sydd wedi goroesi (Ffig. 35). Fodd bynnag, trwy holl strydoedd preswyl y dref mae enghreifftiau mynych o addurniadau unigol o amgylch drysau blaen. Weithiau mae'n anodd gwahaniaethu rhwng gwaith diweddar a gwaith gwreiddiol. O ganlyniad, mae hyd yn oed tai traddodiadol dinod yn rhan ogledd-ddwyreiniol y dref yn cael eu nodweddu gan orffeniadau personoli. Yma, fel mewn mannau eraill yn y strydoedd preswyl Fictoraidd, gwnaed defnydd cyson o dywodfaen Pennant ar gyfer tu blaen cartrefi ond hefyd ddirywiad yn y cymeriad oherwydd y defnydd o rendro a gro wedi'i chwipio. Mae blaenau carreg cryf ar hyd Stryd Morfydd, Stryd y Goron a Stryd Slate (gweler y mapiau treflun) lle mae'r gwaith carreg yn parhau'n agored ac yn cael ei gyfuno â nodweddion cyfnod gweddilliol (fframiau drysau a gwaith brics addurnol yn bennaf). Yn benodol, mae'r grŵp sy'n cynnwys adeilad Byddin yr Iachawdwriaeth yn Stryd Morfydd a'r teras cyfagos rhwng rhifau 24 a 18 yn llawn cymeriad. Fodd bynnag, mae'r ffenestri codi a'r simneiau wedi cael eu colli.

8.3.3 Gellir cymharu rhes fer o bedwar tŷ brics coch â ffenestri crwm ym mhen gogledd-ddwyreiniol Stryd Morfydd ag enghreifftiau eraill yn y dref o adeiladau a fewnlenwyd neu a newidiwyd cyn y Rhyfel Mawr. Mae gerddi blaen bach â waliau terfyn brics yn gosod yr anheddau'n ôl o'r brif linell adeiladu. Mae teras yn Heol Horeb (35-40) yn dangos y cam diweddaraf yn natblygiad y teras gyda'r mynedfeydd yn agor yn uniongyrchol i'r stryd.

8.3.4 Caiff ansawdd lle yr ardal gymeriad ei greu gan olygfeydd hir ar hyd y strydoedd croes a thros y dref isaf. Mae naws llawer mwy agored yno nag yn strydoedd mwy caeëdig cwadrant gogledd-ddwyreiniol yr ardal astudiaeth, neu yn y rhan o'r grid cyntaf sy'n weddill ar hyd Stryd y Farchnad a Stryd Morris. Mae'r adeiladau, er eu bod yn dyddio o ganol i ddiwedd oes Victoria yn bennaf, yn gymysg o ran eu cymeriad, terasau byr yn cymysgu ag eiddo ar wahân ac ar led-wahân. Ceir

nifer o filâu mawr hardd ar wahân yr ydym wedi'u nodi am eu diddordeb treflun penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys 33 Stryd Morfydd a 51 Stryd y Goron. Mae nifer o adeiladau unigol o ddiddordeb treflun lleol ac mae 35 Stryd Morfydd wedi cael ei chydnabod fel adeilad sydd wedi goroesi o ddiwedd y ddeunawfed ganrif, yn gymar i 91A Stryd Woodfield. Saif peth datblygiad ychydig yn ôl o linell y stryd. Mae'r amrywiaeth hwn yn dylanwadu ar yr ymdeimlad o le, fel y gwna enghreifftiau da o nodweddion traddodiadol sydd wedi goroesi (gweler Ffig. 41). Mae dyfnder ardaloedd cefn a gerddi Stryd Morfydd a Stryd y Goron yn benodol o nodedig. Mae gerddi'n cyfrannu at wyrddni sylweddol i olygfeydd dros y dref o'r gorllewin. Mae'n bosib, yn nyddiau cynnar y dref, yr arferid defnyddio tu cefn y strydoedd hyn yn gyffredin at ddibenion masnachol a diwydiant ysgafn. Fodd bynnag, prin yw nifer y mynedfeydd ar wahân sy'n weddill yng nghefn lleiniau. Mae 15 Stryd y Goron yn anarferol am fod ganddo fynediad bwaog i'r iard gefn ar gyfer cerbydau. Mae'n debyg iawn i 8 Stryd Green, sy'n dyddio o 1908. Mae gan 66 Stryd y Goron fynediad cefn ar wahân o fewn llinell y teras, sydd wedi'i gyfuno â'r mynediad i'r tŷ.







Ffigur 41: Mae enghreifftiau da o addurniad traddodiadol yn sicrhau blaenau trawiadol ar hyd strydoedd yn yr ardal gymeriad hon.

## Stryd Martin

8.4 Mae Stryd Martin yn nodi'r fynedfa i'r dref gynlluniedig ar hyd yr hen briffordd rhwng Abertawe a Chastell-nedd. Mae sylw eisoes wedi'i dynnu at ei chymeriad wrth drafod golygfeydd uchod. Fel ardal gymeriad, rydym o'r farn y dylid ystyried bod hyd cyfan y stryd o gornel y Swan yn rhannu'r un cymeriad. Gan mwyaf, adeiladau preswyl o ganol i ddiwedd oes Victoria sydd yma. Crëir diddordeb gan y teras uchel ym mhen deheuol y stryd, gan addurniad bae a fframiau drysau gweddilliol da ar yr ochr orllewinol rhwng Stryd Banwell a'r Sgwâr, a chan ffasadau'r teras gyferbyn mewn dull anarferol i'r ardal. Ar linell y stryd, mae hen orsaf yr heddlu yn adeilad tirnod trawiadol. Mae'n dyddio o 1875 sy'n adlewyrchu ehangiad y dref a'r problemau cymdeithasol yn sgîl hwn. Ceir datblygiad modern ar ochr dde-orllewinol y stryd ar safle ysgol gynnar. Nid yw Stryd Clyndu'n cael ei chynnwys yn yr ardal gadwraeth, ond mae ei chymeriad adeiledig ar hyd hen ffordd ceirt glo yn debyg i dai o ddiwedd oes Victoria yn y cwadrant gogledd-ddwyreiniol a dylid ystyried y stryd hon yn rhan o leoliad yr ardal gadwraeth.

## Y grid gwreiddiol: Stryd Globe, Stryd y Farchnad a Stryd Morris

8.5 O fewn yr ardal gadwraeth caiff y grid gwreiddiol ei gynrychioli gan Stryd y Farchnad, Stryd Morris a Stryd Globe. Saif Capel Libanus a Chapel Philadelphia ar safleoedd capeli cynnar, ac mae Neuadd y Farchnad a'r ysgoldy'n dyddio o 1827. Mae'n bosib bod 8A Stryd Morris yn gynnar, efallai'n enghraifft o'r tai a ddyluniwyd gan Edwards, gan ei fod yn sefyll ychydig yn ôl y tu ôl i waliau terfyn. Roedd lleiniau'r datblygiad yma yn llawer llai na'r rhai yng nghynllun mwy hael y grid mwy. Roedd rhan helaeth o Stryd y Farchnad a Stryd Morris yn dir agored o hyd ym 1876 ac mae gan y rhan fwyaf o'r tai gymeriad o ddiwedd oes Victoria. Weithiau, fel mae i'w weld ar Stryd y Farchnad, roedd angen cyfaddawdau diddorol er mwyn gwasgu tŷ newydd i mewn i lain wag. Cafwyd datblygiad modern sylweddol yn y grid gwreiddiol ar Stryd Globe.

8.5.1 Mae priffordd fodern yr A4067 wedi tarfu ar y grid cyntaf o strydoedd. Mae'r gamlas wedi cael ei llenwi ac mae'r lanfa gysylltiedig wedi cael ei difodi. Y cyfan sy'n weddill o agwedd ddiwydiannol y rhan hon o'r dref yw darn o wal reilffordd sy'n ymestyn tuag at Stryd Morfydd a'r bont droi. Yn y man hwn, mae'r ardal laswelltog rhwng waliau a'r brif ffordd yn culhau ond nid yw heb werth amwynder. Mae cornel Stryd y Farchnad a Stryd Morfydd yn nodwedd negyddol oherwydd ffasâd gwan Sherwoods. Ceir datblygiad modern ar hyd ochr dde-ddeheuol Stryd Globe. Fodd bynnag, mae Stryd y Farchnad yn cadw llawer

o'i chymeriad wrth iddi wyro i lawr y llethr o Gapel Libanus tuag at gornel Stryd Morris (Ffig. 42), gyda'r capel a'r hen farchnad yn creu diddordeb gweledol ac ymdeimlad o gymeriad hanesyddol. Nid yw'r tai teras o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd fwyaf niferus rhwng Stryd Globe a Heol Castell-nedd o'r un dull ac felly, fel sy'n nodweddiadol i Dreforys, maent yn amrywio o ran eu haddurniad. Mae Stryd Globe lydan, dan gysgod Capel Philadelphia, a'r man agored yng nghornel y Swan, botensial i'w wella.



Ffigur 42: Golygfa ar hyd Stryd y Farchnad

8.5.2 Ar hyd rhan uchaf Stryd y Farchnad, ochr ogleddol Stryd Globe ac, i raddau, yn Stryd Morris, mae'n gyffredin i ffasadau carreg y tai Fictoraidd fod â gorchudd gro wedi'i chwipio neu rendr. Mae'r rhan fwyaf o'r simneiau wedi cael eu tynnu. Mae ffasadau ar hyd pen isaf Stryd y Farchnad ac estyniad deheuol Stryd Morris wedi cael eu cadw'n well gyda rhai fframiau drysau deniadol ac addurniad brics melyn o gwmpas y ffenestri. Mae ffrâm drws pren rhif 46 Stryd Morris yn arbennig o gain. Mae ffenestri a drysau uPVC yn gyffredin.

## Treforys Isaf: Stryd y Goron, Stryd Morfydd, Stryd Davies

8.6 Ymdriniwyd ag estyniadau'r strydoedd hyn cyn belled â Stryd Glantawe fel petaent yn rhan o ardal gadwraeth Stryd Woodfield. Felly mae datblygiad yn yr ardal gymeriad hon yn gymysg o ran cymeriad. Caiff ochr ogleddol Stryd y Goron ei nodweddu gan dai teras cerrig nodweddiadol o ddiwedd oes Victoria, y rhan fwyaf ohonynt heb eu rendro, ag addurniad deniadol o amgylch y fframiau drysau a'r ffenestri (Ffig. 43). Gan mwyaf mae'r ochr dde wedi cael ei hailddatblygu i gynnwys tai modern. Caiff yr olygfa ddwyreiniol o'r stryd ei chau gan y gwyrddni sy'n cuddio mynedfa'r ysgol gynradd. Ar y bryn mae Stryd y Goron yn croesi Stryd Woodfield ac mae'r llechwedd yn cau'r olygfa.



8.61 Mae pen dwyreiniol Stryd Morfydd dan gysgod Plas Danbert a'i waliau ar y gornel â Stryd Glantawe. Ochr yn ochr â Phlas Danbert, mae ailddatblygu hen safle Tŷ Morfydd ar gyfer tai fforddiadwy wedi creu datblygiad cyfoes atyniadol sy'n parchu cymeriad â thu blaen stryd, wrth ddatblygu craidd y safle mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymeriad y tai allan a geir ym mhlociau'r ardal gadwraeth. Mae'r deunydd yn sensitif i'r ardal gadwraeth a chadwyd y ffawydden gopr ogoneddus.
Ffigur 43: Stryd y Goron Isaf

8.6.2 Mae Fila Dyffryn, yn ei gardd fawr amgaeëdig, o werth treflun lleol sylweddol. Mae'r tir blaen hwn yn cynnwys coed blaenllaw sydd, ynghyd â'r coed ar hyd Stryd Davies a'r gwyrddni sy'n gysylltiedig â'r gamlas wedi'i mewnlenwi, yn golygu mai dyma'r rhan 'wyrddaf' o'r dref gynlluniedig. Mae'r waliau yn y stryd hon, yn enwedig yn gysylltiedig â Phlas Danbert, Stryd Davies, Fila Dyffryn a phont y gamlas, yn gwneud cyfraniad arbennig at gymeriad, gyda'r defnydd o slag copr yn atgof pwysig o'r rhesymau y mae Treforys yn bodoli.

## Stryd Glantawe rhwng Stryd Morfydd a Stryd Slate

8.7 Mae Stryd Glantawe'n ymestyn i'r gogledd o'i chornel â Stryd Morfydd yn gyfochrog â Stryd Woodfield. Mae'r olygfa i'r ddau gyfeiriad ar hyd y stryd hon yn olygfa bwysig, eilradd yn y dref gynlluniedig. Ychwanegir at ei diddordeb gan y llinell adeiladu afreolaidd (yn benodol rhwng Stryd Morfydd a Stryd y Goron), ac amrywio o ran lled (Ffig. 25). Lle mae Stryd Glantawe'n croesi llinell Nant Melyn a ffin y cynllun grid, mae'r heol yn gwyro tua'r dwyrain yn gyfochrog ag estyniad Stryd Woodfield wrth iddi nesáu at Heol y Clâs. I'r de, mae Stryd Glantawe'n cysylltu â Stryd y Farchnad. Yma mae'r troad a'r disgyniad i linell y stryd yn atgyfnerthu'r ymwybyddiaeth eich bod yn cyrraedd rhan wahanol o'r dref lle mae'r cynllun grid gwreiddiol a'r cynllun diweddarach yn ymuno.



Ffigur 44: Stryd Glantawe

8.7.1 Darn byr o strydlun yw hwn (Ffig. 44) sydd â'i nodwedd benodol ei hun. Stryd gul ydyw, sy'n dod i ben yn y de gyda Phlas Danbert blaenllaw a'i waliau terfyn pwysig. Mae culni (mae'r stryd yn ymagor y tu hwnt i'r gyffordd â Stryd y Goron) yn cyfuno â'r llinell adeiladu afreolaidd i roi ymdeimlad o fod yn amgaeëdig a diddordeb gweledol. Yn bennaf mae'n debyg bod triniaethau ffasadau'n perthyn yn fwy i ddynodiad cynharach fel ardal wella sy'n esbonio pam mae'r rhan fwyaf o'r anheddau wedi cael eu rendro a pham nad yw addurniad gwreiddiol wedi goroesi heblaw am mewn rhai o'r fframiau drysau.

## Cwadrant y gogledd-ddwyrain: pen gogleddol Stryd Glantawe, Heol y Clâs, Stryd Bedford, Stryd Slate, Stryd Green a Rhodfa Margam

8.8 Yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mae'n debyg yr oedd cyfnod o fewnlenwi ac ailosod ar hyd estyniad gogleddol Stryd Glantawe, ac ar hyd breichiau dwyreiniol Stryd Slate ac ar hyd Stryd Green a Stryd Robert roedd cynnydd sylweddol o ran datblygu wrth i'r chwarter hwn o'r grid gael ei lenwi â therasau newydd, mewn strydoedd â mwy o unffurfiaeth ac ymdeimlad o fod yn amgaeëdig na'r rhai a ddatblygwyd dros gyfnod hwy.

8.8.1 Dim ond rhan o Heol y Clâs, datblygiad sy'n dyddio o ddiwedd Oes Victoria ac sy'n ymestyn o'r Groes i'r hen bont reilffordd, sydd o fewn yr ardal gadwraeth bresennol ond mae'n rhannu'r un cymeriad adeiledig yn ei hanfod o ran addurniad masnachol a phreswyl, er bod datblygiadau modern yn tarfu arni, yn benodol ar gornel Stryd Glantawe. Mae adeilad yr hen orsaf yn sefyll o hyd ar ochr ddeheuol y bont, ond mae ailddatblygu o fewn ardal yr orsaf a'r hen seidins wedi tarfu ar gyfanrwydd y strydlun, ac mae wedi cael ei golli'n llwyr lle adeiladwyd y cynllun ffyrdd modern, tynnwyd Pont Wychtree a chodwyd y neuadd fingo fodern ar gornel Heol Castell-nedd a Heol y Clâs.

8.8.2 Tua diwedd y cyfnod, mae'n debyg y dechreuai brics coch ddisodli tywodfaen Pennant fel y deunydd adeiladu o ddewis. Adeiladwyd y tai ar ochr ddeheuol Stryd Bedford a'r tu draw i'r gornel yn Stryd Glantawe â brics, er bod y rhan fwyaf o hyn wedi cael ei gorchuddio gan rendr. Mewn mannau eraill, mae rhesi byr o dri neu bedwar tŷ brics coch yn nodi'r cam olaf o adeiladu cyn y rhyfel. Ceir enghreifftiau yn y cyd-destun hwn o addurniad terracotta deniadol ond a oedd yn cael ei fasgynhyrchu.

8.8.3 Rhwng Stryd Green a Heol y Clâs, mae Rhodfa Margam (Ffig.26), a adeiladwyd ychydig ar ôl y Rhyfel Mawr ond sydd, yn ei hanfod, yn Edwardaidd ei olwg, yn creu ffin rhwng datblygiadau Fictoraidd ac Edwardaidd. Mae'n unigryw o ran ei gynllun gyda rhesi o bedwar tŷ mewn gerddi blaen mawr mewn ffordd sy'n rhoi rhywfaint o ymdeimlad gardd-ddinas i'r stryd. Mae'r adeiladau brics coch yn cydweddu â'r rhesi byr o dai Edwardaidd â ffenestri crwn sydd i'w gweld mewn rhannau eraill o'r dref gynlluniedig, a'r rhai yn y cyflwr gorau yw rhif 1-4. Mae cyswllt lôn da â Stryd Glantawe.

8.8.4 Mae'r strydoedd yn llawer mwy cul yma nag yn Nhreforys Uchaf, ac mae gan Stryd Green, rhan isaf Stryd Slate a Stryd Bedford yn benodol ymdeimlad amlwg o fod yn amgaeëdig – ond heb gipolygon ar dirnodau Plas Danbert a'r Tabernacl. Yn rhesymegol, mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys gweddill Stryd Glantawe, Heol y Clâs a Rhodfa Margam – er gwaethaf ffurf nodedig yr un olaf, a adeiladwyd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ogystal â'r ffaith bod y ffyrdd yma'n fwy cul, mae'r lleiniau'n llai fel nad oes gan yr ardal y gwyrddni cefndirol a geir yn Nhreforys Uchaf. Fodd bynnag, mae amrywiaeth tu blaen y tai wedi parhau gan fod datblygiad, mae'n debyg, wedi bod fesul tipyn ac er bod y llinellau adeiladu wedi dod fwy neu lai'n barhaus, mae'n ymddangos y datblygwyd tai mewn rhesi byrrach o anheddau – proses a sbardunodd addurniad blaen. Er bod carreg leol yn cael ei defnyddio'n amlaf fel deunydd adeiladu, mae ochr ddeheuol Stryd Bedford yn cynnwys tai brics sy'n ymddangos, yn llai nodweddiadol, i gynrychioli un cam adeiladu o rif 13 ymlaen (Ffig. 45). Mae gan y tai rhif 9-11 ffasadau brics coch agored ac addurniad sy'n gyffredin mewn rhesi byr eraill o dai brics coch yn Nhreforys. Y tu draw'r gornel, yn Stryd Green, mae rhif 15 ac 16 yn fwy anarferol – pâr o dai brics coch â ffrynt dwbl; mae rhif 15 wedi cadw ei ffenestri pren. Rhwng Stryd Bedford a Stryd y Goron, mae rhes fer fodern o dri thŷ cyswllt brics coch yn cael ei dilyn gan rif 5, fila ar wahân â ffasâd carreg a mynedfa fwaog i'w iard gefn, sy'n dyddio o 1908 ac yn debyg i 35 Stryd y Goron.



Ffigur 45: Stryd Bedford

8.8.5 O fewn yr ardal gymeriad hon mae safleoedd cornel gwag ar gyffyrdd Stryd Bedford/Stryd Glantawe a Stryd Bedford/Stryd Green a fyddai'n addas i'w gwella'n fannau amwynder lleol yn hytrach na llyfnu'r llinell adeiladu, a fyddai'n gofyn am fedrusrwydd i gyflawni'r dyluniad cyd-destunol priodol.

# 9

# Cynllun Rheoli

Mae rhan gyntaf y ddogfen hon, yr Arfarniad Cymeriad, wedi nodi rhinweddau arbennig Ardal Gadwraeth Treforys sy'n gwneud yr ardal gadwraeth hon yn unigryw. Mae rhan ganlynol y ddogfen, y Cynllun Rheoli, yn hyrwyddo'r nodweddion cadarnhaol ac yn mynd i'r afael â'r nodweddion negyddol sydd wedi cael eu nodi trwy ymgynghori â rhanddeiliaid lleol i roi argymhellion ar gyfer gwella a newid.

## Argymhelliad 1. Dehongli a Dathlu

9.1 Nid yw pwysigrwydd Treforys fel yr enghraifft gynharaf o dref ddiwydiannol gynlluniedig yn Ynysoedd Prydain yn amlwg nac yn cael ei werthfawrogi'n lleol neu'n genedlaethol. Mae diddordeb cynyddol ym mhotensial twristiaeth dreftadaeth y gwaith copr yn nes i lawr afon Tawe ac mae cyfle hefyd i ddathlu hanes diwydiannol ehangach Cwm Tawe gyda Threforys yn ganolbwynt. Yn ogystal â bod o fudd i dwristiaeth dreftadaeth, gallai hyn hefyd wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad lleol o bwysigrwydd yr ardal. Gallai hyn fod yn ysgogiad allweddol mewn unrhyw geisiadau arian grant a gellid ei gyflawni trwy:

- Daflenni/ap llwybr treftadaeth gyda nodwyr llwybr yn y palmant
- Byrddau dehongli mewn mannau allweddol yn y dref
- Lleoliad canolog ar gyfer dehongliad ac arddangosfeydd newidiol (gallai hwn fod yn rhan o'r cynnig twristiaeth dreftadaeth yn y Tabernacl)



## Argymhelliad 2. Diogelu Adeiladau Eiconig

9.2 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau tirnod, gydag o leiaf dri y gellir eu hystyried yn 'eiconig', sef:

### Y Tabernacl

9.2.1 Mae'r Tabernacl wedi derbyn gofal, ond oherwydd ei faint bydd angen sylw arbennig parhaus arno ac mae'r gwaith i'w gynnal a'i gadw yn her anferthol i'r gynulleidfa a'r gymuned ehangach. Mae astudiaeth ar waith mewn partneriaeth rhwng ymddiriedolwyr y capel, Cadw a'r cyngor i archwilio opsiynau i gynnal diddordeb arbennig yr adeilad rhestredig Gradd I hwn. Mae hyn yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r capel at ddibenion cymunedol anghrefyddol a thwristiaeth dreftadaeth sy'n creu incwm yn ogystal ag archwilio cyfleoedd sensitif i addasu'r brif neuadd i ehangu'r mynediad posib a defnyddio'r capel fel lleoliad digwyddiadau. Mae'r posibilrwydd o reoli'r capel fel adeilad cymunedol yn y dyfodol yn un o elfennau allweddol yr astudiaeth hon.

### Eglwys Sant Ioan

9.2.2 Mae'n hanfodol cadw Eglwys Sant Ioan – canolbwynt grid cam 2 Morris, sy'n diffinio ardal gadwraeth Treforys yn ofodol. Bydd dirywiad y nodwedd allweddol hon yn tynnu oddi wrth gymeriad ardal Stryd Woodfield a'r ardal gadwraeth ehangach yn sylweddol. Mae'r adeilad yn dadfeilio ac mae angen ei adnewyddu fel y gellir ei ddefnyddio mewn ffordd gynhyrchiol cyn gynted â phosib. Gallai ail-sefydlu'r adeilad a'i sgwâr fel 'angor' pensaernïol fel yr oedd yn nyluniad gwreiddiol y dref gan Morris atgyfnerthu'r pen hwn o'r stryd.

### Plas Danbert

9.2.3 O'r tri adeilad, gellid dadlau mai sefyllfa Plas Danbert yw'r un fwyaf bregus. Mae ei gyflwr yn wael iawn, ac mae sefydlu diben dichonadwy yn y pen draw iddo'n gynnig heriol iawn o ystyried y diffyg cadwraeth debygol. Mae angen cyflwyno cynigion cynaliadwy ar gyfer ei ailddatblygu ar frys, ac mae trafodaethau cyn cyflwyno cais cadarnhaol wedi awgrymu bod yna botensial i'w drosi'n fflatiau ag iddynt gynllun mewnol modern wrth adfer y gragen dreftadaeth allanol.

# Argymhelliad 3. Eiddo Masnachol a chefnogaeth ariannu adfywio

9.3 Yn ddiweddar mae'r cyngor wedi mabwysiadu Canllaw Dylunio Blaenau Siopau wedi'i ddiweddaru fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) a fydd yn cael ei ddefnyddio i arwain cynigion ar gyfer blaenau siopau newydd. Mae'r canllawiau hyn a ddarperir yn yr Adolygiad Ardal Gadwraeth hwn yn rhoi gwybodaeth benodol am Ardal Gadwraeth Treforys a bydd y dogfennau hyn yn gweithio law yn llaw i arwain cynigion o'r fath yn yr ardal hon.

9.3.1 Mae'r ychydig o gwmpas y siopau, y byrddau ffasgia, y stondinau sy'n codi, canopïau galw heibio, setiau drws a ffenestri, gan gynnwys y lloriau uchaf yn werthfawr yn wir, a dylid eu cadw. Mae rhai yn aros o dan bocsio neu arwyddion fascia mwy. (Mae Milano a'r uned yn 91 yn achos o bwynt.)

9.3.2 Fel arall, dasg adfywiad cadwraethol yw diogelu datblygiad pensaernïol Woodfield Street, y llinellau to amrywiol sy'n codi, yn y rhan fwyaf o achosion, i adeiladau cornel cain. Mae tafarndai a'r uned siop brics coch addurniadol gan St John's mewn perygl ac mae angen defnydd cynaliadwy newydd yn y lleoliadau amlwg hyn.

9.3.3 Fodd bynnag, dylid cydnabod na chaiff Treforys ei 'gwella' mewn ffordd sylweddol drwy reoli datblygiad. Mae bywiogrwydd economaidd yr ardal yn wael, ac mae angen yr holl gymorth posib ar fusnesau. Felly, er y dylid osgoi datblygu diystyriol, bydd angen cymorth ar fusnesau. Mae'r farchnad stryd fisol a sefydlwyd yn ddiweddar wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr ar ddyddiau'r farchnad ond mae angen ymagwedd fwy cyfannol. Felly, mae angen strategaeth adfywio economaidd er mwyn mynd i'r afael ag agweddau amrywiol, megis cymorth i fusnesau ac arian cyfatebol ar gyfer gwelliannau.

9.3.4 Gellid cyflwyno cais am Fenter Treftadaeth Dreflun (MTD) drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer rhannau allweddol o Ardal Gadwraeth Treforys. Diben yr arian grant hwn yw gwella ardaloedd cadwraeth y mae angen eu hadfywio. Gallai MTD bosib ar gyfer yr ardal gwmpasu Stryd Woodfield, gan efallai ganiatáu i arian grant at ddiben:

- Adfer manylion traddodiadol megis blaen siopau;
- Atgyweiriadau allanol i ffryntiadau;
- Cyllid bwlch tuag at ddod ag adeiladau hanesyddol pwysig yn ôl i'w defnyddio;
- Gwelliannau tir cyhoeddus;
- Hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu traddodiadol;
- Digwyddiadau cymunedol i godi ymwybyddiaeth.

9.3.5 Mae arian cyfatebol MTD wedi bod yn rhan allweddol o strategaethau adfywio mewn ardaloedd eraill o Gymru. Profwyd eisoes fod yn well mynd i'r afael ag ardaloedd gam wrth gam, ac awgrymwyd bod yna botensial i ganolbwyntio'r cynllun MTD cychwynnol ar yr ardal o amgylch y Tabernacl. Nid yn unig lleoliad adeilad rhestredig Gradd I wedi dirywio yw hwn. Yn ogystal, dyma'r pwynt lle mae gweithgarwch economaidd a nifer yr ymwelwyr yn gostwng yn sylweddol, mewn gwrthgyferbyniaeth i'r gweithgarwch yn y gogledd. Gallai hyn hefyd fynd i'r afael â'r Crown, sy'n adeilad cornel gwag amlwg (gallai fod yn hwb cyd-weithio ar sail nifer y bobl sy'n gweithio gartref yn yr ardal a'r gwasanaeth band eang da). Gallai ffocws y MTD gychwynnol ar yr ardal o amgylch y Tabernacl hefyd gael ei defnyddio i ddathlu'r hyn sy'n ymddangos ei fod yn un o'r nifer bach o fythynnod gwreiddiol (sef 93, Stryd Woodfield) sydd bellach yn adeilad masnachol gwag.




Ffigur 45a: Cyn ac ar ôl enghraifft o eiddo o fewn Ardal Gadwraeth sydd wedi'i wella gyda manylion traddodiadol wedi eu hadfer trwy gyllid Menter Treftadaeth Treflun HLF.



## Argymhelliad 4. Datblygiad gan Ddeiliaid Tai

9.4 Mae'n debyg nad yw llawer o ddeiliaid tai yn Nhreforys yn gwybod am statws ei ardal gadwraeth.

9.4.1 Efallai na fydd arweiniad safonol i ddeiliaid tai yn briodol gan fod cryn dipyn o waith adnewyddu wedi cael ei wneud i weddluniau allanol, megis drysau a ffenestri UPVC. Mae llawer yn credu bod ardal gadwraeth yn cyfeirio at adeiladau allweddol. Felly gellir gwneud achos dros lunio arweiniad 'cynyddu ymwybyddiaeth' i ddeiliaid tai, gan dynnu mwy o sylw at hanes, grid a thrysorau'r dref, pwysigrwydd cymeriad strydoedd, a chyfraniad preswylfeydd unigol at hynny.

9.4.2 Mae angen llunio cyhoeddiad newydd – Byw yn eich Ardal Gadwraeth – gan roi amlinelliad byr o effeithiau ardal gadwraeth ar bobl leol (mewn ffordd gadarnhaol). Mae llawer o enghreifftiau gan awdurdodau lleol ond mae fersiwn English Heritage yn fodel da.

## Argymhelliad 5. Cadw tai heb eu rhestru ond positif

9.5.1 Mae Ardal Gadwraeth Treforys yn cynnwys nifer o eiddo heb eu rhestru yr ystyrir bod nifer mawr ohonynt yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth (gweler paragraff 6.63 ac atodiad 1) er y gallent fod mewn perygl o gael eu dymchwel neu waith addasu neu ychwanegu amhriodol. .

9.5.2 Mae angen caniatâd ardal gadwraeth i ddymchwel unrhyw adeiledd dros 115 metr ciwbig a bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gwrthwynebu gwaith dymchwel arfaethedig ar unrhyw un o'r adeiladau heb eu rhestru ond 'cadarnhaol'. Felly bydd yn rhaid i unrhyw gais i ddymchwel gynnwys datganiad cyfiawnhad tebyg i'r hyn sydd ei angen ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig. Mae cadw adeiladau 'cadarnhaol' heb eu rhestru wedi'i gynnwys yng nghanllawiau English Heritage sy'n ymwneud â gwarchod a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae rhagdybiaeth eisoes o blaid cadw adeiladau rhestredig.

9.5.3 Ar ben hynny, mae gan yr holl adeiladau heb eu rhestru a ddefnyddir fel tai teulu nifer o hawliau datblygu a ganiateir sydd hefyd yn caniatáu gwneud nifer o addasiadau heb ganiatâd cynllunio. Mae hyn yn cyferbynnu ag eiddo preswyl a ddefnyddir fel fflatiau neu HMO (tai amlfeddiannaeth) neu eiddo masnachol yn gyffredinol, y mae ganddynt lawer llai o hawliau datblygu a ganiateir. Felly mae'r fath newidiadau eisoes yn cael eu rheoli gan yr angen i gael caniatâd cynllunio. Gellir dod o hyd i restr lawn o'r Hawliau Datblygu a Ganiateir ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/householder-permitted-development-rights/?skip=1&lang=cy

9.5.4 O dan ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014, mae rhai Hawliau Datblygu a Ganiateir i dai mewn ardaloedd cadwraeth eisoes wedi'u dileu. Felly NI CHANIATEIR gwneud y gwaith canlynol mewn ardaloedd cadwraeth HEB GANIATÂD CYNLLUNIO:

- Gosod cladin ar unrhyw ran o dŷ, boed hynny ar y tŷ presennol neu unrhyw estyniad, gyda cherrig, cerrig artiffisial, gro chwipio, rendro, coed, plastig neu fetel neu deils;
- Inswleiddio waliau allanol (EWI);
- Estyniadau sy'n fwy nag un llawr;
- Estyniadau unllawr ar yr ochr
- Ehangu tŷ annedd sy'n cynnwys ychwanegiad neu newid i'w do;
- Cael gwared ar simnai o dŷ annedd;
- Gosod ffenestri to;
- Darparu unrhyw adeilad allanol; amgae; pwll nofio neu bwll arall; neu gynhwysydd a ddefnyddir i storio tanwydd domestig (datblygiad Dosbarth E) sy'n fwy na 20 metr o unrhyw wal y tŷ annedd ac sy'n fwy na 10 metr sgwâr
- Gosod, newid neu ailosod antena microdon ar dŷ annedd neu o fewn cwrtil tŷ ar simnai, wal neu oleddf to tu blaen y gellir ei weld o briffordd.

9.5.5 Gellir diddymu'r Hawliau Datblygu a Ganiateir trwy osod Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar waith, gan ddod â'r fath newidiadau dan reolaeth gynllunio, ond byddai'r rhain yn cael eu defnyddio i reoli'r tai teulu 'cadarnhaol' yn yr ardal gadwraeth yn unig. Gwneir Cyfarwyddiadau Erthygl 4 dan Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (GDCG) 1995, a gellir eu cyflwyno gan awdurdod cynllunio lleol i dynnu hawliau datblygu a ganiateir yn ôl lle mae bygythiad go iawn i adeilad neu ardal breswyl benodol oherwydd addasiadau neu ychwanegiadau anaddas. Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cynnwys atodlen sy'n nodi'r newidiadau amrywiol i anheddau teulu y mae angen caniatâd cynllunio arnynt bellach. Nid yw'n golygu y bydd datblygiad (megis newidiadau i ffenestri neu ddrysau), yn amhosibl o reidrwydd. Fodd bynnag, mae'n golygu bod rhaid ceisio caniatâd cynllunio ac mae hyn yn rhoi cyfle i ystyried rhinweddau cynnig yn erbyn y buddion cadwraeth.

9.5.6 Er na all Cyfarwyddiadau Erthygl 4 fod yn ôl-weithredol, byddai rhoi mesur o'r fath ar waith yn helpu i gynnal cymeriad arbennig Ardal Gadwraeth Treforys. Hefyd gall Cyfarwyddyd Erthygl 4 ymwneud â grŵp o adeiladau yn hytrach na'r ardal gadwraeth gyfan, megis adeiladau 'cadarnhaol' heb eu rhestru sy'n cynnal eu haddurniadau a'u deunyddiau gwreiddiol. Bydd unrhyw gyfarwyddyd yn gofyn am arolwg ffotograffig diweddar i gofnodi cyflwr presennol yr adeiladau dan sylw, a bydd angen darparu arweiniad ysgrifenedig i ddeiliaid tai.

9.5.7 Mae'r cynllun yn atodiad 1 (Cynllun Cyfarwyddiadau Erthygl 4) yn amlygu'r grwpiau o dai heb eu rhestru sydd yn y cyflwr gorau lle mae digon o nodweddion a/neu addurniadau pensaernïol gweddilliol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gymeriad strydlun yr ardal gadwraeth. Mae rhai o'r terasau traddodiadol yn haeddu cael eu cadw ac, yn ogystal â hyn, mae nifer o filâu ymysg y terasau a'r adeiladau traddodiadol sydd wedi cadw cryn nifer o addurniadau gwreiddiol. Byddai colli'r addurniadau traddodiadol hyn yn golled i'r ardal gadwraeth ac ystyrir bod angen mwy o warchodaeth arnynt.

9.5.8 Gellir 'addasu' Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ystyried amgylchiadau penodol ardal gadwraeth. Yn hytrach na Chyfarwyddyd Erthygl 4 cyffredinol ar gyfer yr ardal gadwraeth gyfan, cynigir cyfyngu ar Hawliau Datblygu a Ganiateir mewn 'grwpiau' penodol o eiddo fel a nodir gan y lliw melyn ar y cynllun yn atodiad 1 (Article 4 Directions Plan). Mae rhai o'r grwpiau'n cyfeirio at dai ar wahân unigol a pharau o dai ar led-wahân er bod eraill yn cyfeirio at rannau o deras cyfan. Cyfanswm y byddai hyn yn effeithio ar yw 47 dai yn yr ardal gadwraeth. Mae'r grwpiau wedi'u rhifo ar y cynllun a'u cysylltu â'r tabl isod sy'n nodi'r nodweddion y cynigir eu gwarchod a gellid rheoli'r rhain trwy ddileu'r rhan berthnasol o'r Hawliau Datblygu a Ganiateir o'r GPDO fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Rhan 1, Dosbarth A | Ehangu, gwella neu newid tai annedd presennol | Byddai hyn yn gwarchod nodweddion ar weddluniau'r strydoedd megis ffenestri crwn, addurniadau pensaernïol a deunyddiau. |
| Rhan 1, Dosbarth C | Unrhyw addasiad arall i do annedd | Byddai hyn yn gwarchod deunyddiau to ac ymylon to megis estyll tywydd addurniadol |
| Rhan 1, Dosbarth D | Adeiladu cyntedd y tu allan i ddrws allanol annedd | Byddai hyn yn gwarchod yr ardaloedd y tu allan i ddrws blaen a chymeriad ffasadau adeiladau |
| Rhan 2, Dosbarth C | Paentio tu allan unrhyw adeilad | Byddai hyn yn gwarchod gwaith brics a charreg heb ei baentio rhag paentio amhriodol |
| Rhan 2, Dosbarth A<br>Rhan 31, Dosbarth B | Cael gwared ar waliau terfyn | Byddai hyn yn diogelu tai sydd eisoes â waliau terfyn |

9.5.9 Mae diddymu'r Hawliau Datblygu a Ganiateir fel a amlinellir uchod trwy Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn broses ar wahân i'r adolygiad ardal gadwraeth a bydd yn gofyn am ymgynghoriad ac adroddiadau ychwanegol i'r cyngor.

# Argymhelliad 6. Mannau Cyhoeddus a Gwaith Strydlun

9.6.1 Dylid ystyried yn gyffredinol brosiect arwyddion stryd ag arwyddion stryd yn null yr hen ddyddiau, efallai â chyfeiriadau at hen enwau'r strydoedd, mynegbyst, celf stryd o radd cadwraeth, efallai mewn arddull arwyddion nodweddiadol, a byddai llwybr deongliadol wedi'i ddiwygio a'i ddatblygu yn ddymunol.

## Stryd Woodfield

9.6.2 Gellid ystyried strategaeth strydlun ar gyfer Stryd Woodfield. Gallai gwaith o'r fath ganolbwyntio ar wella arwyneb a rennir, clirio mannau i gerddwyr megis mynd i'r afael â'r broblem o finiau gwastraff masnachol a biniau olwynion domestig, dodrefn stryd gwell o 'radd gadwraeth' ac arwyddion etc. Er enghraifft, dylai goleuadau stryd ddarparu cynhalbyst baneri hefyd. Y prif ffocws yw'r amgylchedd a'r mannau i gerddwyr o flaen siopau i gefnogi masnachu yn hytrach na'i danseilio.

9.6.3 Efallai y bydd angen menter 'lle canolog' wedi'i hystyried yn ofalus ar gyfer y lleoliad yn nhroad Stryd Woodfield, er mwyn uno'r dref hŷn a thynnu'r datblygiadau diweddarach tuag at y Groes. Dylid ystyried arwynebau a rennir, adolygu croesfannau a gwneud ymdrech i ailfywiogi'r brif stryd yn ofodol. Efallai y bydd ymyriad cymharol fach fod yn ddigonol, fel y byddai mentrau cysylltiedig tebyg ger cyffyrdd a chroesfannau eraill gan gynnwys, lle bo'n ymarferol, lochesi hanner ffordd ar eu traws.

## Stryd Martin ac Eglwys Sant Ioan

9.6.4 Yn ogystal â'r mesurau strydlun mwy cyffredinol hyn, mae angen canolbwyntio ar Eglwys Sant Ioan. Mae'r adeilad ei hun yn ganolbwynt grid Morris ac mae argymhellion ar gyfer cynllun sy'n canolbwyntio ar yr adeilad wedi cael eu hamlinellu'n flaenorol. Ond nid oes dyfodol i'r adeilad heb ei osod yn ei sgwâr.

9.6.5 Mae cyfle ar gyfer prosiect man cyhoeddus yma. Dylid cael gwared ar rwystrau ac adfer yr ymdeimlad o fod yn 'sgwâr'. Ar y cyd â'r perchennog a defnyddwyr posib o Eglwys Sant Ioan, mae angen cynnal gwaith ailwynebu, adnewyddu'r amgylchedd i gerddwyr, a datblygu mesurau arafu traffig a mynediad cerddwyr amlwg â blaenoriaeth i'r adeilad. Dylai'r lle bwysleisio pwysigrwydd hanesyddol ac ystyriaeth fwy helaeth o gerddwyr, ac felly o weithgarwch cymdeithasol a masnachol.

9.6.6 Byddai nifer o fesurau bach i helpu pobl i groesi'r ffordd, megis y lloches ar groesfan Stryd Woodfield, a dodrefn stryd a meinciau etc o radd gadwraeth sy'n fwy perthnasol i weithgarwch busnes a mynediad yn ddymunol, yn fwy felly ar yr ochr ddwyreiniol na'r fainc bresennol yn y cysgod i'r gogledd. Y ffocws yw nodi'r mynediad i'r adeilad a, thua'r dwyrain, i'r hen dref. Yn ogystal, byddai cyllido ar raddfa fach at ddiben adfer a chadw'r arwyddion a hysbysebion paent hanesyddol sy'n wynebu i gornel ogledd-orllewin y sgwâr yn cryfhau'r mentrau hyn ymhellach.

9.6.7 Yn ogystal, byddai peth arian ar gyfer adfer a diogelu'r hysbysfyrddau hanesyddol (yn ogystal â'r ffasâd maent wedi'u gosod arno) sy'n wynebu cornel ogledd-orllewinol y sgwâr yn gwella'r mentrau hyn ymhellach.

## 'Llwybr y Gamlas'

9.6.8 Gallai'r rhan o'r hen gamlas sy'n ymestyn o'r ysgol gynradd i 'Bont Stryd Morfydd' ac ymlaen i'r 'sgwâr' fod yn destun prosiect cadwraeth a mannau gwyrdd, gydag amgylchedd llawer gwell i gerddwyr a beicwyr, yn enwedig er mwyn cyrraedd yr ysgol. Mae angen astudiaeth ddylunio fwy manwl sy'n gysylltiedig â mentrau eraill yn yr hen dref, 'Treforys Isaf', ond a allai, yn y lle cyntaf, gynnwys 'pyrth' wedi'u gwella o'r ysgol ac o Stryd y Goron, Stryd Morfydd a Stryd Globe yn ogystal ag integreiddio i Stryd Davies a'r cyffiniau.

9.12.1 Dylid annog rhaglen i wirfoddolwyr er mwyn rheoli llystyfiant yn yr ardal a dylid datblygu hon ar y cyd â Chymunedau'n Gyntaf a grwpiau cymunedol lleol.

## Y Groes

9.6.9 Ym mhen gyferbyn Stryd Woodfield, mae angen ffocws ychwanegol ar fannau trefol y Groes ei hun (sy'n ffurfio ffin yr ardal gadwraeth arfaethedig). Yma, mae hanes hir y tafarnau, hen Heol Pentrepoeth a'r toiled yn y canol wedi diflannu bron yn llwyr. Mae rhai adeiladau modern yn helpu i gadw cymeriad, megis y gornel art deco, ond yr her yw adfer ansawdd i'r amgylchedd cerddwyr a rhoi hwb mawr ei hangen i fusnesau lleol. Dyma'r 'porth' arall i'r ardal gadwraeth ac argymhellir ystyried tacluso, arwynebau, llwybrau cerddwyr a chelfi stryd cyffredinol 'o radd cadwraeth'.

## Stryd Glantawe, Stryd y Farchnad a'r Hen Dref

9.6.10 Mae cyfle i ddatblygu strategaeth strydlun ar gyfer pen deheuol Stryd Glantawe i Stryd y Farchnad a'r strydoedd sy'n eu croesi. Byddai'r strategaeth gyffredinol yn defnyddio'r lleiniau gwag ar gyfer mannau cymunedol, lleoedd parcio neu ddatblygiadau mewnlenwi. Ceir cynigion i wneud rhywbeth am yr agoriadau mawr gwag sy'n gwasanaethu unedau siop ac addurniadau stryd 'parth cartref' gan roi pwyslais ar yr hydoedd amrywiol. Rhowch fwy o statws i'r orsaf heddlu, Libanus a hen Neuadd y Farchnad, ac i lawr i'r man agored (i'w enwi, efallai, yn 'Sgwâr Morris') yn y pen deheuol. Mae angen rhoi sylw i'r ardal gyfan hon – Stryd Morris, Stryd Davies, y 'signalau' gweledol tuag at y nodweddion arbennig niferus.

## Diwedd deheuol Heol Morris

9.6.11 Mae cyfle am fenter sylweddol a fyddai'n weladwy iawn o'r gylchfan a'r ffordd ddeuol, sef sgwâr cyhoeddus a chanddo arwydd mawr – "Tref Morris, sefydlwyd ym 1782", o bosib gyda nodwedd celf gyhoeddus a dehongliad i ddisgrifio gweledigaeth Morris o dai i weithwyr. Byddai hyn yn sbarduno gwaith adnewyddu cyffredinol i arwynebau'r strydoedd, adeiladau lleol, mynediad i Lwybr y Gamlas, a dehongliad o'r llwybr ymlaen o Stryd Morris. Mae cyfle i ddarparu cyflwyniad mwy uchelgeisiol i ymwelwyr. Mae arwydd gweladwy o'r fath yn debygol o fod yn fwy effeithiol na mentrau eraill. Y dewis arall yw tynnu sylw ymwelwyr a'u hatgoffa o Dref Morris wrth iddynt gyrraedd Stryd Martin.

## Lonydd a Chysylltiadau

9.6.12 Mae llawer o lonydd lleol yn dilyn llwybrau cerddwyr cynnar ac mae angen sylw arnynt oherwydd bod eu cyflwr erbyn hyn yn wael ac yn llai diogel. Fel gyda llawer o'r fath lwybrau, mae ganddynt swyddogaeth ymarferol barhaus ac mae angen adolygu llwybrau a chysylltiadau lleol. Mae mwy o hanes i'w ddatgelu. Byddai cyswllt o Eglwys Dewi Sant i Horeb yn ddymunol fel y byddai gwelliannau i'r lonydd o Stryd Davies i Stryd y Farchnad (ger yr hen ardal chwarae); o Stryd Woodfield i Strawberry Place ac i fyny i Deras y Graig; yr ale anffodus i Stryd Glantawe o Stryd Woodfield (Poundstretcher – yn cysylltu â Heol Cwmbath a Rhodfa Margam yn y pen arall); a lôn fer gul o Stryd Green i lawr i'r hen orsaf reilffordd. Mae'n debyg bod mwy ohonynt a fyddent yn cael eu datgelu trwy astudiaeth benodol.

# Argymhelliad 7. Cynnwys y Gymuned

9.7.1 Dylid parhau â'r rhaglen barhaus i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ardal gadwraeth a'i harwyddocâd fel rhan o'r strategaeth adfywio economaidd bosib.

9.7.2 Mae potensial i gefnogi creu 'grŵp ardal gadwraeth'. Gallai hyn gynnig sylwadau ar gynigion cynllunio a helpu i fonitro newidiadau yn yr ardal gadwraeth.

9.7.3 Mae cyfle i gynnwys y gymuned ymhellach wrth ofalu am yr amgylchedd adeiledig lleol trwy brosiectau gwirfoddol. Gall pobl leol ddatblygu prosiectau mewn perthynas â'r cyngor a thrwy weithio ar y cyd â chymdeithas sefydledig 'Cyfeillion Parc Treforys'. Yn benodol, mae safle Capel Nasareth wedi'i nodi fel safle sydd â'r potensial i greu prosiect adfywio a arweinir gan y gymuned.

# 10

## Cynllun Gweithredu Crynodeb

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r camau gweithredu a nodwyd yn adran 9 ynghyd ag amserlenni awgrymol i'w cwblhau. Bydd angen astudiaeth bellach ar lawer o'r rhain er mwyn pennu eu paramedrau a'u dichonoldeb. Bydd angen diweddaru'r cynllun hwn yn unol ag astudiaethau pellach.

| Camau Gweithredu | Amserlen ar gyfer cwblhau | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor byr (1-2 flynedd) | Tymor canolig (3-5 mlynedd) | Tymor hir (Mwy na 5 mlynedd) |
| Nodi adnoddau addas ar gyfer rhoi cynllun | x | | |
| Sicrhau dyfodol tymor hir y Tabernacl trwy apelio i Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru | | x | |
| Egluro dyfodol Eglwys San Ioan a chymryd y camau gweithredu angenrheidiol i gefnogi datblygiad yn rhagweithiol ac atal rhagor o ddirywiad | x | | |
| Datblygu a rhoi cynllun datblygu dichonol ar waith ar gyfer Plas Danbert | | x | |
| Pennu paramedrau ar gyfer dynodiadau Erthygl 4 penodol a rhoi'r dynodiadau hyn ar waith | x | | |
| Adolygu, gweithredu a gorfodi'r Canllaw Dylunio | x | | |
| Sefydlu grantiau gwella adeiladau graddfa fach ar gyfer diogelu blaenau siopau | x | | |
| Sefydlu Menter Treftadaeth Dreflun ar gyfer yr ardal a rhoi'r gyfres gyntaf o brosiectau a ariennir ar | | x | |
| Prosiect arwyddion stryd | x | | |
| Strategaethau strydlun ar gyfer a) Stryd Woodfield a'r Groes; a b) Stryd Glantawe a Stryd y Farchnad | x | | |
| Newidiadau strydlun 'mantais gyflym' e.e. tynnu rhwystrau, 'tacluso' a chelfi stryd | | x | |
| Rhoi strategaethau strydlun llawn ar waith | | | x |
| Adfer a diogelu hysbysfyrddau | x | | |
| Adolygu cysylltadwyedd llwybrau a lonydd lleol | x | | |
| Prosiect cymunedol ar gyfer clirio llwybrau a lonydd | x | | |
| Rhoi prosiect llwybr y gamlas ar waith gyda chyfraniad y gymuned | x | | |
| Datblygu menter Sgwâr Morris a'i rhoi ar waith | | | x |
| Datblygu strategaethau cynnwys y gymuned a'u rhoi ar waith | x | | |

# Llyfryddiaeth

Anon (2007), Libanus Evangelical Church: the history,
Morriston, Libanus

Childs, J. (1994), 'The manor of Clase',
Gower, xlv, 58-69

Davies, J M (1952),'The Morris family and Swansea',
Gower, v, 26-30

Farmer, D (1997), John Humphrey, Swansea, RISW

Jones, A (1996), Welsh Chapels,
Stroud, Alan Sutton

Newman, J (1995), The Buildings of Wales: Glamorgan,
Harmondsworth, Penguin

Hughes, S (2000), Copperopolis: landscapes of the early
industrial period in Swansea Aberystwyth, RCAHM

Ridd, T (1960), 'Victorian Swansea',
Gower, xiii, 41-5

# Atodiad 1: Ymgynghoriad Cymunedol

A.1 I helpu i lunio drafft cychwynnol yr Adolygiad Ardal Gadwraeth hwn yn 2013, cynhaliwyd digwyddiad i ymgynghori â'r gymuned yn Eglwys Dewi Sant ar Stryd Woodfield, gyda stondin i bobl alw heibio yn ogystal â sesiwn weithdy strwythuredig. Yn ogystal, sefydlwyd tudalen Facebook fel dull ymgynghori, gan sbarduno trafodaeth ac adborth yn ogystal â darparu dull cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer y digwyddiad cymunedol. Rhoddwyd ffurflenni hefyd ar gyfer adborth ysgrifenedig.



A.2 Rhoddwyd taflenni a phosteri a oedd yn amlygu'r ymgynghoriad cychwynnol mewn siopau a busnesau lleol, yn Llyfrgell Treforys a chyda Chymunedau'n Gyntaf, a chafodd y digwyddiad ei gynnwys yng nghylchlythyr Cymunedau'n Gyntaf a hefyd mewn fersiynau print ac ar-lein y South Wales Evening Post.

A.3 Ymgynghorwyd â chynghorwyr lleol a aeth am dro trwy'r dref. Ymgynghorwyd hefyd â'r gymuned trwy drafodaethau anffurfiol yn ystod teithiau cerdded trwy'r dref, a thrwy alw heibio siopau a busnesau.

## Adborth Cymunedol

A.4 Mae ymdeimlad cryf o le ymhlith aelodau'r gymuned, ac mae Treforys yn lle annwyl i lawer ac mae diddordeb lleol cryf ynddi. Fodd bynnag, nid yw'r cysyniad o ardal gadwraeth yn cael ei ddeall yn eang.

A.5 Roedd peth trafodaeth am estyn ffin yr ardal gadwraeth. Roedd llawer o'r drafodaeth hon yn ymwneud â'r posibilrwydd y byddai'r groes a Pharc Treforys yn cael eu cynnwys yn yr ardal hon. Roedd ymgyngoreion yn canolbwyntio bron yn ddieithriad ar estyn y ffin yn hytrach na'i lleihau ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau o ran eithrio ardaloedd sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd. Ar ôl trafodaeth, roedd y rhan fwyaf o ymgyngoreion yn cytuno ar yr angen am ardal benodol er mwyn hwyluso rheoli, a'r consensws cyffredinol oedd y dylid estyn y Groes a chwmpasu'r triongl hyd at y Swan yn y de, yn ogystal â'r gamlas yn y dwyrain.

A.6 Soniodd y rhan fwyaf o ymgyngoreion am yr addoldai, yn bennaf y Tabernacl ac Eglwys Sant Ioan (ond eraill hefyd), fel nodweddion lleol allweddol sy'n gryfderau'r ardal a bod angen eu cadw. Mae Eglwys Sant Ioan yn benodol yn destun pryder lleol wrth iddi ddirywio heb unrhyw ddefnydd terfynol clir yn y golwg, nad yw'n helpu gyda bywiogrwydd cymdeithasol economaidd pen deheuol Stryd Woodfield.

A.7 Mynegodd llawer o ymgyngoreion bryder ynglŷn â Phlas Danbert a'i gyflwr gwael, gan dynnu sylw at hwn fel adeilad lleol eiconig y mae angen ei achub.

A.8 Cafwyd cefnogaeth eang dros gynnal a chadw ac ailosod tu blaen siopau ar hyd Stryd Woodfield, a rhwystredigaeth am ddiffyg llymder wrth roi mesurau rheoli ar waith. Hefyd bu dealltwriaeth a diddordeb o ran cynnal y cyd-destun ehangach (rhoddwyd fel enghreifftiau y gwrthgyferbyniad llwyr rhwng yr adeilad modern iawn gerllaw'r Tabernacl a'r eglwys a hefyd adeilad Wilkinson's ar Stryd Woodfield). Gwnaed sylwadau hefyd am annibendod ar Stryd Woodfield, megis biniau olwynion a'r strydlun yn gyffredinol.

A.9 Er y mynegwyd cefnogaeth gyffredinol dros gynnal cymeriad, roedd ymgyngoreion yn llai brwdfrydig yn eu cefnogaeth dros fesurau rheoli (megis Cyfarwyddiadau Erthygl 4) ar gyfer addasiadau i dai presennol, gyda phryder ynglŷn â chostau i ddeiliaid tai. Yn gyffredinol, roedd ymgyngoreion yn cefnogi ymdrechion i gadw nodweddion cyfnod, ond y consensws oedd y dylid ymdrin yn llai llym â materion megis ffenestri uPVC – er enghraifft, caniatáu iddynt gael eu defnyddio yn lle pren ond annog pobl i beidio ag ail-lunio fframiau ffenestri neu ddrysau er mwyn eu gosod (h.y. gosod ffenestri a drysau o fewn agoriadau presennol yn hytrach na'r gwrthwyneb). Nododd ymgyngoreion hefyd nad oedd unrhyw ffynhonnell wybodaeth rwydd o ran cymorth gyda datblygiadau i eiddo preswyl o fewn ardal gadwraeth.

A.10. Amlinellwyd y gamlas a'r bont, gyda'r waliau cynnal amrywiol gan rai ymgyngoreion fel rhan o Dreforys sydd wedi'i 'hanghofio' y gallai gael ei chynnwys yn yr ardal gadwraeth yn hawdd. Amlinellwyd bod yr ysgol ar y ffin honno hefyd yn haeddu cael ei chynnwys gan rai ymgyngoreion.

## Ymgynghori â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid ar Arfarniad Cymeriad a Chynllun Rheoli Drafft

A.10 Mae'r is-adran ganlynol yn amlinellu'r broses ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, gan grynhoi'r canlyniadau.

A.11 Ar 26 Medi 2013, cyflwynwyd Adolygiad Drafft o Ardal Gadwraeth Treforys i'r Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu. Penderfynodd yr aelodau gymeradwyo'r ddogfen ddrafft i'w rhoi i'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid ymgynghori yn ei chylch.

A.12 Roedd Adolygiad Drafft o Ardal Gadwraeth Treforys yn destun ymgynghoriad 6 wythnos a gynhaliwyd rhwng 25 Awst 2017 ac 8 Hydref 2017. Defnyddiwyd y dulliau ymgynghori canlynol:

- Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg yn South Wales Evening Post ar 25 Awst 2017, 13 Medi 2017 a 5 Hydref 2017.
- Anfonwyd e-byst i hysbysu am yr ymgynghoriad ynghylch y ddogfen ddrafft at gynghorwyr wardiau lleol yn ogystal â chyrff ymgynghori penodol, asiantau cynllunio a grwpiau gweithredu lleol ar 25 Awst 2017.
- Anfonwyd llythyrau a oedd yn esbonio'r broses ymgynghori a sut i weld dogfennau a chyflwyno sylwadau i holl aelwydydd yr ardal gadwraeth estynedig (+200 o eiddo). Cafodd map a oedd yn dangos ffin bresennol ac arfaethedig yr ardal gadwraeth ei gynnwys hefyd.
- Paratowyd taflenni a'u dosbarthu i'r holl fusnesau ar hyd Stryd Woodfield mewn ymgyrch 'drws i ddrws' a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2017.
- Sefydlwyd gwe-dudalen benodol i esbonio'r broses ymgynghori a galluogi dogfennau electronig ar ffurf PDF i gael eu lawrlwytho. Roedd y wefan yn cynnwys cyfleuster i lenwi a chyflwyno ffurflen sylwadau ar-lein.
- Rhoddwyd posteri dwyieithog ar bolion lampau yn yr ardal leol a dosbarthwyd copïau yn Llyfrgell Treforys a Llyfrgell Ganolog Abertawe.
- Cafwyd diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod 6 wythnos yr ymgynghoriad.
- Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ym Marchnad Treforys ddydd Sadwrn, 2 Medi 2017, gyda swyddogion y cyngor yn bresennol.
- Cynhaliwyd digwyddiad cyhoeddus ar 14 Medi 2017 yn y Tabernacl ar Stryd Woodfield. Hysbysebwyd y digwyddiad yn y wasg leol, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y cyngor a gwefan Cadw. Cafwyd cyflwyniadau drwy gydol y diwrnod, ac fe'u dilynwyd gan drafodaethau grŵp ynglŷn â'r cynigion. Ar adegau eraill, cafwyd sesiynau galw heibio mwy anffurfiol.
- Cyfarfu swyddogion y cyngor â masnachwyr lleol ar 16 Hydref 2017 i drafod y broses adolygu'r ardal gadwraeth a'r potensial am gefnogaeth gyllido.

A.13 Ar y cyfan, cyflwynwyd 12 o ymatebion unigol ar adolygiad yr ardal gadwraeth drwy'r ffurflen sylwadau neu drwy lythyr. Yn ogystal â hynny, cafwyd ymateb gan gyfanswm o oddeutu 110 o unigolion a wnaeth leisio barn yn y digwyddiadau cyhoeddus a gynhaliwyd ym Marchnad Treforys ar 2 Medi, 2017 ac yn y Tabernacl ar 14 Medi, 2017. Ar ben hynny, cafwyd cynrychiolaethau gan fasnachwyr lleol ar 16 Hydref, 2017. Mae dadansoddiad y sylwadau a dderbyniwyd, ynghyd ag ymateb y cyngor, ar gael ar wefan gyhoeddus y cyngor.

A.14 Mae fersiwn ddiwygiedig a therfynol Adolygiad o Ardal Gadwraeth Treforys yn cynnwys yr holl newidiadau arfaethedig i'r canllaw yn sgîl yr ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.




Newid ffin

A.15 Cam gweithredu allweddol a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli oedd y cynnig i adolygu ffin yr ardal gadwraeth ac fel rhan o'r ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Wedi dadansoddi'r ardaloedd o amgylch yr ardal gadwraeth, ystyrir bod gan yr ardaloedd canlynol gymeriad ac ansawdd sydd gyfwerth â'r ardal gadwraeth bresennol ac, o ganlyniad, awgrymwyd eu hychwanegu ati:

- I'r gogledd: Gwneud 'sgwâr' ar y ffin bresennol yng nghornel ogledd-orllewin Strawberry Place, gan gynnwys yr eglwys a'r neuadd gysylltiedig, gan estyn ar hyd Stryd Woodfield tua'r gogledd i gynnwys y Groes, hyd byr o Heol Pentrepoeth a Heol Sway mor bell ag adeilad yr hen sinema ac yn dychwelyd i lawr ochr ddeheuol Heol y Clâs.

- I'r dwyrain: Ehangu'r ffin i gynnwys yr ardal gyfan i'r gogledd a'r de o Bont 'Morfydd', gan ddefnyddio'r ymyl ffordd 'newydd' i gynnwys cynifer o hen lwybr ac olion y gamlas ag sy'n amlwg, gan gynnwys Ysgol Treforys, ffiniau gwaith y gamlas a'r waliau. I'r de o'r bont i gynnwys y gamlas, y waliau, y llwybrau, y mannau gwyrdd a Rhodfa Margam.
- I'r de: Ehangu'r ffin i gynnwys estyniad deheuol y man cyhoeddus rhwng Heol Castell-nedd a Stryd Martin.
- I'r gorllewin: O'r ardal 'sgwâr' newydd i'r gogledd yn Nheras Strawberry, gan gynnwys yr hen Mill House Inn a thŷ allan, eiddo sy'n wynebu i lawr Stryd Slate, eiddo ar ochr orllewinol Teras Uplands, eiddo ar ochr ddeheuol uchaf Stryd Morfydd ac eiddo ar y gyffordd â Stryd Martin a'r eiddo podiwm ar ben isaf Stryd Martin er mwyn cynnwys yr holl stryd.

A.16 Dengys yr holl ardaloedd a ychwanegwyd i'r Ardal Gadwraeth ar wefan y cyngor.




## Sylwadau a dderbyniwyd

A.17 Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n gadarnhaol ynghylch cynnwys a'r argymhellion a nodwyd yn y dogfennau Adolygu'r Ardal Gadwraeth. Rhoddir crynodeb o'r prif sylwadau ac ymatebion isod.

A.18 O ran y cynigion i gynyddu maint ffin yr Ardal Gadwraeth, yn bennaf er mwyn gwella golwg, amwynder a rheolaeth Stryd Woodfield ac adlewyrchu dealltwriaeth hanesyddol o ddatblygiad y dref cyn 1920 (fel a ddengys ar Fap 1 yr Atodiad), roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n gefnogol o'r ymagwedd hon.

A.19 Awgrymodd sawl ymatebwr y dylid ehangu'r ffin ymhellach i'r gogledd er mwyn cynnwys Croes Treforys yn ei chyfanrwydd. Cynigir yr estyniad i'r gogledd er mwyn cydnabod datblygiad Treforys yn y 19eg ganrif a rhoi cyfle i statws go iawn gael ei roi i'r groes hynafol gyda Heol Pentrepoeth. Fe'i hystyrir yn addas i gynnwys Croes Treforys a Heol Sway hyd at adeilad yr hen sinema a'r adeiladau ar ochr ogleddol Heol y Clâs hyd at hen adeilad y banc. Mae hyn yn darparu cyfle i greu 'sgwâr' rhesymegol i'r ffin ogleddol, gan gynnwys y groes gyfan.

A.20 Cafwyd awgrymiadau pellach i estyn y ffin i ochr orllewinol Teras Uplands, gan gynnwys safle Eglwys Fethodistaidd Aenon ac i'r dwyrain i gynnwys Stryd Wychtree. Ystyrir bod yr estyniad i gynnwys dwy ochr Teras Uplands a chynnwys safle Eglwys Fethodistaidd Aenon yn ei chyfanrwydd yn addas, a newidiwyd y ffin o ganlyniad. O ran ehangu ymhellach i'r dwyrain i gynnwys hen Heol Castell-nedd, llwybrau cynnar dros y gamlas a'r rheilffordd hyd at Bont Wychtree a Cham 1 Tref Morris, mae'r rhain wedi'u colli ar y cyfan naill ai cyn adeiladu'r ffordd newydd neu o ganlyniad iddo. Er na ehangwyd y ffin arfaethedig i gynnwys ochr ddwyreiniol y ffordd newydd, maent oll yn haeddu cydnabyddiaeth fel lleoliadau o fewn yr Ardal Gadwraeth.

A.21 Cafwyd cefnogaeth am yr Arfarniad Cymeriad a rhannu Treforys yn ardaloedd o gymeriad penodol. Cyfeiriwyd at Stryd Woodfield yn arbennig o ran pwysigrwydd gwelliannau blaenau siopau yn cydymffurfio â meini prawf penodol er mwyn cadw a/neu wella cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.

A.22 Cafwyd cefnogaeth aruthrol ar gyfer yr argymhellion a nodwyd yn y Cynllun Rheoli. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch rheolau ychwanegol yr awdurdod sydd bellach yn berthnasol i aelwydydd. Nid bwriad y Cynllun Rheoli yw gorfodi rheolau newydd nac atal newid ond, yn hytrach, sicrhau mwy o graffu ar ddyluniadau newydd.

A.23 Pwysleisiodd nifer sylweddol o sylwadau bwysigrwydd cadw asedau treftadaeth, yn enwedig y Tabernacl eiconig. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y mae'r rôl y mae adeiladau o'r fath yn ei chwarae wrth ddenu ymwelwyr i'r ardal ac ennyn diddordeb ynddi yn un sylweddol. Un o'r argymhellion allweddol a nodwyd yn y Cynllun Rheoli yw sicrhau dyfodol y Tabernacl, sy'n

adeilad rhestredig Gradd I o arwyddocâd sylweddol. Mae'r Tabernacl wedi derbyn gofal ac mae mewn cyflwr da. Fodd bynnag, mae ei faint yn golygu y bydd angen sylw arbennig a pharhaus arno a chydnabyddir y bydd ei gynnal yn her enfawr i'r gynulleidfa a'r gymuned ehangach. Mae potensial i ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal drwy ddefnyddio'r Tabernacl fel canolbwynt er mwyn rhannu a hyrwyddo hanes Treforys.

A.24 Roedd ymatebwyr hefyd yn mynegi eu pryder ynghylch diffyg gwaith cynnal ar adeiladau eiconig/ treftadaeth megis Eglwys Sant Ioan a Phlas Danbert, ill dau yn adeiladau rhestredig Gradd II ac mewn meddiannaeth breifat. Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi ei fod yn hanfodol cynnal Eglwys Sant Ioan ac y byddai ailddatblygu'r adeilad hwn, ynghyd â gwelliannau i'r mannau trefol, yn cryfhau'r pen hwn o Stryd Woodfield. O ran Neuadd Danbert, dyma'r adeilad tirnod mwyaf diamddiffyn a restrir yn y Cynllun Rheoli ym marn yr ymatebwyr. Mae mewn cyflwr gwael dros ben ac mae'n gynnig heriol iawn i sicrhau defnydd terfynol a dichonol iddo o ystyried maint y gwaith cyfalaf y bydd ei angen yn erbyn yr elw y gellid ei greu ohono. Croesewir cynigion cynaliadwy ar gyfer ei ailddatblygu ar frys a chynhaliwyd trafodaethau cyn cyflwyno cais cadarnhaol ynghylch ei drosi'n gartrefi.


A.24 Mater arall a godwyd gan ymatebwyr niferus yw cyflwr cyffredinol Stryd Woodfield o ran blaenau siopau nas cynhelir yn dda/anweddus, lefel uchel o siopau gwag, diffyg gwaith cynnal a chadw, biniau ar olwynion masnachol hyll, diffyg amrywiaeth o siopau a golwg y man cyhoeddus. Caiff y Cynllun Rheoli a CCA Canllaw Dylunio Blaenau Siopau (2017) y cyngor eu defnyddio i sicrhau y caiff blaenau siopau eu dylunio mewn ffordd fwy priodol ar hyd Stryd Woodfield, gyda'r nod o wella golwg gyffredinol y man cyhoeddus a pharchu treftadaeth yr ardal. Mae'r Cynllun Rheoli yn ceisio cadw'r ychydig nodweddion blaenau siopau sydd wedi goroesi, megis fframiau blaen siopau, estyll tywydd, cynhalwyr ffenestri, canopïau, setiau drysau a ffenestri, a nifer ohonynt yn haeddu grantiau penodol i ofalu am y nodweddion hyn. Mae gan y materion hyn oblygiadau ehangach, ac maent yn bwydo mewn i'r gofyniad am strategaethau adfywio mawr eu hangen a chefnogaeth gyllido ar gyfer yr ardal.

A.25 Darparwyd cefnogaeth gref ar gyfer y syniad posib o gael cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (MTD) i'r ardal, yn enwedig yng nghyffiniau'r Tabernacl oherwydd fe'i gwelir fel 'calon' Treforys. Cafwyd cefnogaeth i ddefnyddio unrhyw gyllid ar gyfer gwelliannau i Stryd Woodfield o ran y man cyhoeddus, gwella blaenau siopau, lleihau'r nifer o unedau gwag a chafwyd cefnogaeth gref hefyd ar gyfer dehongli a dathlu arwyddocâd Treforys fel yr enghraifft gynharaf o dref ddiwydiannol a gynlluniwyd yn Ynysoedd Prydain. Roedd ymatebwyr yn gefnogol o ddathlu treftadaeth Treforys drwy amrywiaeth o gyfryngau, megis llwybrau treftadaeth, placiau glas ar adeiladau hanesyddol, pwyntiau a mentrau gwybodaeth ar hyd llwybr hanesyddol y gamlas. Mae'r Cynllun Rheoli yn cydnabod yr angen am gyllid i fusnesau lleol ac am welliannau arwyddocaol yn yr ardal. Pe gellid sicrhau cyllid, gellid ei ddefnyddio ar gyfer datblygu cynaliadwy penodol i gynorthwyo adfywio Stryd Woodfield, o bosib yn yr ardal gyferbyn â'r Tabernacl, gan gynnwys adeilad y Crown (sef rhif 79, Stryd Woodfield) sydd â manylion pensaernïol y credir eu bod yn deillio o un o'r bythynnod gwreiddiol. Gellid defnyddio cyllid i fynd i'r afael â'r nifer o adeiladau gwag, gwella mannau cyhoeddus a chynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth gymunedol, i sôn am ychydig o enghreifftiau'n unig.

A.26 Yn ogystal, cafwyd cefnogaeth ar gyfer cynnwys y gymuned mewn prosiectau adfywio gan sawl ymatebwr, gyda'r dyhead penodol ailddefnyddio safle Capel Nasareth fel gardd gymunedol. Mae'r Cynllun Rheoli yn cydnabod yr angen am raglen cynyddu ymwybyddiaeth yn y gymuned o brosiectau adfywio ac felly byddai camau o'r fath yn gymorth wrth feithrin ymdeimlad o falchder a pherchenogaeth yn y gymuned.

A.27 Gellir gweld y rhestr lawn o'r sylwadau a gyflwynwyd ac ystyriaeth o'r sylwadau hyn a'r camau a argymhellwyd ar wefan gyhoeddus y cyngor.

# Atodiad 2: Cyfarwyddiadau Erthygl 4



## Cyfarwyddiadau Erthygl 4 Posib

| Rhif | Cyfeiriad | Sawl eiddo | Rheswm dros Gyfarwyddyd Erthygl 4 |
|---|---|---|---|
| 1 | 17 Heol y Clâs | 1 | Tŷ unigol amlwg gyda gwaith cerrig a ffryntiad talcen. |
| 2 | 6/7 Stryd Slate | 2 | Pâr o adeiladau amlwg ag iddynt gymeriad. |
| 3 | 47/48/49 Stryd Slate | 3 | Grŵp o dai teras cerrig ac atyniadol sy'n cyd-fynd â'r dopograffeg. |
| 4 | 45/48 Stryd Slate | 1 | Adeilad unigol amlwg ag iddo gymeriad sydd â manylion eglur (mae rhai agweddau ohono'n debyg i Dŷ Danbert rhestredig). Mae hefyd ar lain y tu ôl i wal sydd o ddiddordeb lleol. |
| 5 | 5 Stryd Green | 1 | Adeilad unigol ac amlwg ag iddo gymeriad arbennig o fewn y strydlun sy'n amlygu natur 'defnydd cymysg' wreiddiol Treforys, a chyda mynediad i iard yn y cefn. |
| 6 | 9/10 Stryd y Goron | 2 | Pâr o dai ymysg y tai teras ag iddynt gymeriad sylweddol ac ansawdd pensaernïol. |
| 7 | 15 Stryd y Goron | 1 | Adeilad unigol ag iddo gymeriad arbennig o fewn y strydlun sy'n amlygu natur 'defnydd cymysg' wreiddiol Treforys, a chyda mynediad i iard yn y cefn. |
| 8 | Stryd y Goron 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66 | 11 | Grŵp sylweddol o dai teras a ffryntiadau cerrig sy'n goleddfu gyda'r dopograffeg a lle caiff rhythm ei greu gan y ffenestri crwm y tu ôl i erddi blaen bach. |
| 9 | 52/53 Stryd y Goron | 2 | Tŷ pâr ag iddynt gymeriad a golwg sy'n cydweddu. |
| 10 | 61 Stryd Woodfield | 1 | Adeilad unigol ac amlwg sy'n ganolbwynt i grid Morris y tu ôl i wal o ddiddordeb lleol. |
| 11 | 33 Stryd Morfydd (Filâu Roseberry) | 1 | Tŷ unigol, amlwg sy'n rhan o deras amrywiol. |
| 12 | 35 Stryd Morfydd | 1 | Un o ddau fwthyn gwreiddiol Treforys sy'n wreiddiol i'r grŵp. Mae'r llall yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol yn 91b Stryd Woodfield. |
| 13 | Stryd Morfydd 18, 20, 22, 24, 26 | 5 | Teras unigryw â ffryntiad cerrig sy'n rhan o grŵp gyda neuadd Byddin yr Iachawdwriaeth, sydd hefyd yn adeilad o ddiddordeb treflun. |
| 14 | Stryd Morfydd 46, 48, 50, 52 | 4 | Grŵp sy'n cynrychioli rhai o'r tai amrywiol a gadwyd orau ar ochr ddwyreiniol y grid. |
| 15 | Fila Dyffryn, Stryd Morfydd | 1 | Adeilad unigol ac amlwg ar lain y tu ôl i wal o ddiddordeb lleol. |
| 16 | Stryd Woodfield 75, 77, 79, 81, 83, 85, 87, 89, 91 | 9 | Er gwaethaf newid rhai o ddeunyddiau'r wal, mae'r grŵp hwn ar stryd fawr Treforys wedi cynnal ansawdd a rhythm drwy'i ddrysau a'i ffenestri crom. |
| 17 | 17 Stryd Morris | 1 | Adeilad unigol ac amlwg ar lain y tu ôl i wal o ddiddordeb lleol sydd hefyd yn rhan o safle'r hen gapel rhestredig cyfagos. |

Lluniwyd yr adroddiad gan Trilein Ltd. ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru.

Trilein Ltd. 2 Ffordd y Dywysoges, Abertawe SA1 3LW
www.trilein.com
info@trilein.com
01792 655264
ffôn: @Trilein

I gael mwy o wybodaeth am Ardal Gadwraeth Treforys, cysylltwch â:
Cyngor Dinas a Sir Abertawe 01792 636000 / Designswansea@swansea.gov.uk